

Canllawiau i staff amlasiantaeth sy'n gweithio gyda phobl sy'n hunanesgeuluso

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg	Dyddiad: Mehefin 2021	Statws: Cymeradwywyd Mehefin 2021
Awdur: Jackie Neale	Fersiwn blaenorol:	Dyddiad adolygu: Mehefin 2023

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen yma'n nodi canllawiau i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl sy'n hunanesgeuluso'n ddifrifol.

1.2 Gall hwn fod yn faes anodd ar gyfer ymyrraeth gan fod materion gallu meddyliol a'r ffordd mae unigolyn yn dewis byw yn rhan ohono. Mae'r maes yma hefyd yn cynnwys barn unigolion ynghylch ffyrdd o fyw sy'n gymdeithasol dderbynol. Hyd yn oed mewn achosion lle mae'n ymddangos y gallai'r risg i'r unigolyn fod ar lefel uchel, efallai na fydd unrhyw sail gyfreithiol glir i ymyrryd. Bydd llawer o benderfyniadau'n dibynnu ar alluedd meddyliol y person dan sylw a'i allu i wneud dewis gwybodus ynghylch sut y mae'n byw a'r risgiau y mae'n agored iddyn nhw. Mae asesu gallu unigolyn sy'n gwrthod ymyrraeth o'r tu allan neu'n amheus ohoni, yn llawn heriau.

1.3 Mae hunanesgeulustod wedi ymddangos mewn cyfran sylweddol o Adolygiadau Diogelu Oedolion yn Lloegr ac Adolygiadau Gwaith Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru lle mae oedolion sydd mewn perygl wedi marw o ganlyniad i hunanesgeulustod ymddangosiadol. Mae'r adolygiadau yma'n creu darlun o'r cymhlethdod a'r heriau y mae ymarferwyr yn y maes yma yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â'r unigolyn a chyflawni newid cadarnhaol. Mae'n amlwg wrth weld pa mor aml y mae Byrddau Diogelu o'r farn bod angen ymchwilio i ganlyniadau achosion oedolion sy'n hunanesgeuluso, a datblygu gweithdrefnau mewn ymateb i hyn, bod angen i staff y sector cyhoeddus roi dulliau cadarn ar waith i'w cynorthwyo. Dylai asiantaethau hefyd gofio am y beirniadaethau gan Lysoedd y Crwneriaid pan fydd pobl y gwyddys eu bod mewn perygl o hunanesgeuluso yn cael eu 'gadael' gan wasanaethau yn dilyn asesiad arwynebol o'u gallu a'r unigolion hynny yn gwrthod derbyn cymorth.

Safbwyntiau amlasiantaeth

1.4 Mae'r ddogfen yma'n ganllaw y bydd modd i amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau ei ddefnyddio. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r 'Protocol Staff Amlasiantaeth ar gyfer Rheoli Achosion o Hunanesgeulustod Difrifol' sy'n cynnig fframwaith ar gyfer dwysáu achosion cymhleth lle mae'r risgiau'n uchel neu'n argyfyngus ac sydd ddim yn gwella gydag ymyrraeth.

1.5 Yn aml, teulu, cymdogion neu'r gymuned ehangach sy'n tynnu sylw at bobl sy'n hunanesgeuluso, ond mae'n bosibl mai gwasanaethau tai, cyfleustodau cyhoeddus neu wasanaethau brys yw'r asiantaethau cyntaf i ddarganfod pobl sy'n byw mewn amodau gwael.

Canllaw

1.6 Mae'r ddogfen yn nodi dangosyddion hunanesgeulustod. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd asesiad galluedd meddyliol cadarn. Yn aml, gall pobl ymddangos fel pe baen nhw â'r gallu i ddewis gwrthod unrhyw gymorth. Serch hynny, gall cynnal asesiad mwy dwys ddangos bod eu gallu i wneud penderfyniad ynghyd â'u gweithrediad gwybyddol yn ddiffygiol. Gall hyn fod yn arbennig o wir am bobl sy'n datblygu dementia

neu sydd â chyflyrau iechyd meddwl eraill, neu'r rhai sy'n byw gydag anaf i'r ymennydd o ganlyniad i drawma neu gamddefnyddio sylweddau.

1.7 Mae'n bwysig cydbwyso hawl pobl i wneud dewisiadau ynghylch sut maen nhw'n byw eu bywydau â'u diogelwch, yn enwedig os ydyn nhw'n agored i niwed. Mae asesiad cywir o'r risg a chymesuredd o ran yr ymyrraeth yn allweddol, ochr yn ochr â chymryd amser i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda'r unigolyn sydd mewn perygl.

1.8 Mae'r ddogfen hefyd yn nodi swyddogaeth bwysig gweithio mewn partneriaethau amlasiantaeth a all helpu i roi darlun llawnach ac i gynllunio ffordd ymlaen.

Hunanesgeulustod a Diogelu

1.9 Dydy hunanesgeulustod ddim yn un o'r categorïau yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Cymru gael eu sbarduno pan fydd amheuaeth o oedolyn sydd mewn perygl yn cael ei esgeuluso (neu'i gam-drin) lle mae'r esgeulustod neu'r gamdriniaeth yn digwydd o ganlyniad i weithredoedd neu esgeulustod unigolyn arall / unigolion eraill.

1.10 Mae pobl sy'n hunanesgeuluso'n ddifrifol yn aml ar risg uchel o ddioddef niwed difrifol a dydy marwolaethau ddim yn anghyffredin. Yn yr un modd â phryderon ynglŷn ag oedolion yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan eraill, mae dull gweithredu amlasiantaeth strategol o ran diogelu a lleihau risg hefyd yn hanfodol mewn achosion o hunanesgeulustod difrifol a chymhleth.

Goblygiadau cyfreithiol

1.11 Mae'r ddogfen yn nodi rhai o'r seiliau cyfreithiol dros ymyrryd ac ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae'n cynnwys cyfrifoldebau o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a phwerau'r Wladwriaeth i ymyrryd, wedi'u gwreiddio mewn cyfraith iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y ffaith nad oes un darn o ddeddfwriaeth sy'n darparu datrysiad ym mhob achos a bod angen diwydrwydd dyladwy wrth ystyried cyfyngu ar ymreolaeth a rhyddid unigolyn o dan Erthygl 5 a'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Serch hynny, mae'r hawliau yma'n hawliau cymwys a rhaid eu cydbwyso yn erbyn dyletswydd awdurdod cyhoeddus i hyrwyddo Hawliau Dynol eraill, gan gynnwys Erthygl 2, Hawl i Fyw, ac ystyried yr egwyddor llesiant sy'n rhedeg trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cyfraith iechyd cyhoeddus hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i asiantaethau statudol weithredu i amddiffyn aelodau'r cyhoedd pan fydd risg o niwed iddyn nhw.

1.12 Yr hyn sy'n bwysig yw bod rhaid i unrhyw ymyrraeth gan y Wladwriaeth mewn Hawliau Dynol fod yn unol â'r gyfraith, yn angenrheidiol ac yn gymesur. Mae rhagor o arweiniad ynglŷn â rhwymedïau cyfreithiol yn Atodiad 5.

Hunanesgeulustod ac Amddiffyn Plant

1.13 Mae'n hanfodol ystyried lles unrhyw blant a allai gael eu heffeithio gan faterion hunanesgeuluso gan oedolyn. O dan ddeddfwriaeth plant mae fframwaith llawer cliriach ar gyfer ymyrraeth os yw'n ymddangos bod plentyn yn dioddef niwed. Rhaid i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar oedolion weithio'n agos gyda gwasanaethau plant mewn achosion o'r fath.

2. Diffiniad o Hunanesgeulustod

2.1 Mae hunanesgeulustod yn golygu unrhyw fethiant gan oedolyn i ofalu amdano'i hun sy'n achosi, neu'n rhesymol debygol o achosi, niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol difrifol, neu golled sylweddol o asedau. Gall hunanesgeulustod hefyd gynnwys byw mewn amodau aflan a/neu hel eitemau'n ddiangen.

2.2 Ddylai hunanesgeulustod ddim arwain at ymagweddau beirniadol at safonau glendid a thaclusrwydd unigolyn arall. Bydd gan bawb werthoedd a lefelau gwahanol o ran cysur. Mae hunanesgeulustod yn ymwneud â pherson y mae ei allu i reoli ei amgylchoedd, ei iechyd neu ofal personol, arian a/neu sgiliau byw bob dydd sylfaenol yn cael ei gyfaddawdu cymaint nes bod hyn yn bygwth ei iechyd a'i ddiogelwch yn uniongyrchol neu iechyd a diogelwch eraill o'i gwmpas.

2.3 Mae'n bwysig cydnabod y gall gwerthoedd personol, cymdeithasol a diwylliannol ddylanwadu ar asesiadau o hunanesgeulustod a hel eitemau a dylai gweithwyr proffesiynol bob amser ystyried sut y gallai eu gwerthoedd eu hunain effeithio ar eu barn. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n delio â phryderon am hunanesgeuluso a hel eitemau ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng parchu ymreolaeth unigolyn a chyflawni eu dyletswydd i amddiffyn ei les yn ogystal ag amddiffyn y cyhoedd. Mae modd defnyddio adnoddau asesu ynghyd â barn broffesiynol yn effeithiol i leihau'r risg o ragfarn ddiarwybod unigol a darparu tystiolaeth wrthrychol o lefel y risg.

Dangosyddion hunanesgeulustod

2.4 Yn aml, mae hunanesgeulustod yn cael ei ddisgrifio mewn tair ffordd – esgeuluso'r hunan, esgeuluso'r amgylchedd a gwrthod derbyn cymorth.

Gall esgeuluso'r hunan gynnwys:

- Hylendid gwael
- Dillad brwnt/amhriodol
- Gofal gwael o'r gwallt
- Diffyg maeth / hydradiad annigonol
- Hylendid deintyddol gwael a allai arwain at y dannedd yn pydru, haint yng nghnawd y geg a heintiau eraill
- Anghenion meddygol/iechyd heb eu diwallu (e.e. diabetes – gwrthod inswlin, trin wlsrau coes)
- Camddefnyddio alcohol/sylweddau
- Ynysu cymdeithasol
- Sefyllfaoedd lle mae tystiolaeth bod plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol oherwydd hunanesgeulustod gan oedolyn

Gall esgeulustod yr amgylchedd gynnwys:

- Amodau aflan, blêr neu frwnt sy'n creu sefyllfa beryglus a allai achosi niwed corfforol difrifol i'r unigolyn neu i eraill

- Hel eitemau'n ddiangen
- Risg tân (e.e. ysmygwr â symudedd cyfyngedig / unigolyn sy'n hel eitemau'n ddiangen)
- Eiddo mewn cyflwr gwael
- Cadw llawer o anifeiliaid anwes sy'n cael gofal gwael
- Presenoldeb fermin
- Diffyg gwresogi
- Dim dŵr rhedegog / glanweithdra
- Rheoli cyllid yn wael (e.e. biliau ddim yn cael eu talu sy'n arwain at dorri cyfleustodau, tynnu arian heb esboniad o'r cyfrif banc/cynilo)

Yn aml, bydd unigolion yn gwrthod ymgysylltu â'r gwasanaethau pan fydd yr elfennau uchod yn bresennol.

Achosion hunanesgeulustod

2.5 Gall achosion fod yn niferus ac amrywiol. Mae pobl hŷn sy'n dirywio'n gorfforol ac yn feddyliol yn aml yn hunanesgeuluso. Mae'n bosibl nad oes modd iddyn nhw bellach ddiwallu eu hanghenion domestig / gofal personol. Mewn cymdeithas sy'n heneiddio, gall pobl oroesi eu ffrindiau a'u perthnasau, a dod yn fwyfwy ynysig ac unig, a allai gyfrannu at iselder ysbryd a diymadferthedd. Gall tlodi a diffyg symudedd waethygu'r rhain a gall yr holl ffactorau yma gyfrannu at atal yr oedolyn rhag defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal a rhag gofalu am ei gartref/chartref. Gall balchder a gwrthod derbyn bod ei sgiliau yn dirywio hefyd olygu bod cymorth yn cael ei wrthod.

2.6 Gall salwch meddwl, megis iselder ysbryd, seicosis, anhwylder gorfodaeth obsesiynol neu anhwylder personoliaeth, hefyd leihau gallu unigolyn i ofalu amdano/amdani ei hun. Gall pobl sydd â rhywfaint o anabledd dysgu sydd wedi 'llithro trwy'r rhwyd' hefyd fod yn agored i hunanesgeuluso. Efallai y bydd pobl ar y sbectrwm awtistig neu'r rheini ag anaf i'r ymennydd hefyd yn ei chael hi'n anodd gofalu amdany'n nhw eu hunain a rheoli eu hamgylchedd oherwydd anawsterau prosesu gwybyddol (yn ei chael hi'n anodd cynllunio, rhoi rhywbeth ar waith, pennu trefn ar gyfer tasgau, a datrys problemau) ac efallai byddan nhw'n ofni ymyrraeth oherwydd anawsterau cyfathrebu ac ymgysylltu ag eraill. Gall gwneud galwadau ffôn fod yn anodd i bobl â phroblemau iechyd meddwl ac i'r rhai sydd ar y sbectrwm awtistig. Gall cynnig ystod o sianeli cyfathrebu, gan gynnwys e-byst neu negeseuon testun, helpu rhai unigolion i dderbyn cymorth yn gynharach a lleihau effaith hunanesgeulustod. Gall pobl sy'n ddibynnol ar sylweddau hefyd hunanesgeuluso naill ai oherwydd bod eu holl adnoddau wedi'u cyfeirio at gael sylweddau neu oherwydd bod dirifoldeb y broblem yn golygu eu bod nhw'n methu a gofalu amdany'n nhw eu hunain.

2.7 Mae mynd i'r afael â chanlyniadau ymddygiadau neu anawsterau o'r fath yn bwysig iawn. Yn aml, gall darparwyr gwasanaethau gael eu hunain yn ymwneud ag unigolion (os yw hunanesgeuluso yn dod yn amlwg) sydd wedi bod mewn cyswllt uniongyrchol â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai ac amgylcheddol. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod y gall hunanesgeulustod fod yn gyflwr dros dro ac mae'n ddefnyddiol gweithio gydag unigolion i benderfynu beth all y sbardunau fod. Mae hyn yn allweddol i atal yr angen am ymyriadau parhaus a thro ar ôl tro gan ddarparwyr gwasanaeth mewn rhai achosion. Efallai mai hwyliau isel neu gymhelliant gwael sy'n gysylltiedig â phwl o iselder neu seicosis neu gyfnod o afiechyd corfforol sy'n effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni tasgau gofal personol neu dasgau domestig am gyfnod. Efallai nad yw'r unigolyn wedi cael unrhyw gyfle blaenorol i gaffael ac ymarfer y sgiliau ymarferol

sydd eu hangen i gynnal ei les/lles neu amgylchedd ei gartref/chartref. Gall gweithio gyda'r unigolyn i ennill y sgiliau hynny helpu i ddatrys y sefyllfa ac atal problemau pellach.

2.8 Mewn rhai achosion, mae asesiadau a chymorth yn cael eu gwrthod mewn perthynas ag esgeulustod pan na fydd oedolyn sy'n methu â gofalu amdano/amdani ei hunan, ac sy'n ddibynnol ar rywun yn y teulu, yn derbyn y gofal sydd ei angen arno/arni. Yn yr achosion yma, lle mae rheswm i amau bod esgeulustod yn cael ei achosi gan berson arall, dylid cyflwyno adroddiad i Garfan Diogelu'r Awdurdod Lleol perthnasol yn Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr neu Gwm Taf.

Hel eitemau'n ddiangen

2.9 Hel eitemau'n ddiangen neu 'gelcio' yw'r anhawster parhaus i daflu neu ymrannu ag eiddo, waeth beth yw eu gwir werth. Mae'r ymddygiad fel arfer yn cael effeithiau niweidiol – emosiynol, corfforol, cymdeithasol, ariannol a hyd yn oed cyfreithiol – ar yr unigolyn ei hun ac ar aelodau'r teulu. Mae nifer fawr yr eitemau sy'n cael eu cadw yn nodweddiadol o bobl sydd â'r broblem yma. Yn aml, pethau megis papurau newyddion, cylchgronau, bagiau papur a phlastig, blychau cardbord, ffotograffau, cyflenwadau o nwyddau'r cartref, bwyd a dillad ynghyd â chasgliadau o eitemau sydd wedi mynd yn draed moch sy'n cael eu cadw ac yn llenwi'r gofod byw.

2.10 Dyma rai o'r dangosyddion sy'n ymwneud ag achos o hel pethau'n ddiangen difrifol:

- Mae lefel y celc yn peri risg iechyd ddifrifol i'r unigolyn neu'r cymdogion
- Mae risg uchel o dân neu blâu gan bryfed neu anifeiliaid
- Mae hel pethau'n ddiangen yn gysylltiedig â phryderon hunanesgeuluso eraill, megis esgeuluso iechyd corfforol, diffyg maeth digonol
- Gall hel pethau'n ddiangen fod yn gysylltiedig â dirywiad gwybyddol difrifol a diffyg gallu i roi hunanofal a gofalu am yr amgylchedd
- Mae hel pethau'n ddiangen yn bygwth tenantiaeth unigolyn a bydd mewn perygl o gael ei wneud/gwneud yn ddigartref trwy orchmynion cau neu orchmynion adennill meddiant.

2.11 Dyma rai ffyrdd o ymateb i hyn:

- Os oes gan yr unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau ynghylch ceisio cymorth, byddai atgyfeiriad at wasanaeth therapi seicolegol neu therapi gwybyddol ymddygiadol yn addas, os yw'n cytuno i hyn.
- Gweithio gyda'r unigolyn dros amser i'w gynorthwyo i glirio'r eitemau. Gall gynnwys gwaith wedi'i dargedu gyda'r unigolyn ar gynllun i glirio'r eitemau yn raddol a'i helpu i wneud hyn.
- Os yw'r unigolyn yn byw mewn llety wedi'i rentu, efallai y bydd angen cymorth arno/arni i gysylltu â'r landlord os yw o dan fygythiad o gael ei droi/throi allan.
- Efallai y bydd angen cymorth ar yr unigolyn i gysylltu ag adrannau amgylcheddol neu reoli plâu.
- Atgyfeirio'r unigolyn at y Gwasanaeth Tân er mwyn cynnal asesiad risg tân ataliol, ar ôl iddo/iddi gytuno i hynny.
- Os nad oes gan yr unigolyn alluedd meddyliol digonol i reoli ei amgylchedd/hamgylchedd, yna efallai y bydd angen cymorth parhaus arno/arni gyda hunanofal a rheoli'r drefn ddomestig.

- Felly mae asesu gallu yn ofalus ac asesiad anghenion trylwyr yn bwysig er mwyn sefydlu'r ffordd orau o ymyrryd ac ar ba sail bydd modd gwneud hynny.
- Pan fydd gan berson alluedd, yna mae'n bwysig gweithio gydag ef / gyda hi a deall ei ddymuniadau/dymuniadau a'i deimladau/theimladau. Os nad oes gan yr unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau perthnasol efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau er budd gorau wrth barhau i ystyried dymuniadau'r unigolyn cyn belled ag y bydd modd canfod y rhain.
- Gall yr asiantaethau a allai fod yn y sefyllfa orau i gefnogi pobl sy'n hunanesgeuluso fod yn un o'r isod neu'n gyfuniad ohonyn nhw:
 - Gwasanaethau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau
 - Gwasanaethau Cymorth ar gyfer Dementia
 - Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a/neu Nyrsio yn y Gymuned
 - Gwasanaethau trydydd sector i ddarparu eiriolaeth a chymorth ymarferol
 - Staff Cefnogi Pobl neu swyddogion cymorth tenantiaeth yn yr Adran Tai
 - Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd
 - Gwasanaeth Tân ac Achub
 - Asesiad a Chynllun Gofal a Chymorth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2.12 Bydd cyfarfod cynllunio amlasiantaethol, sy'n cael ei alw gan unrhyw asiantaeth sy'n gweithio gyda'r unigolyn yn ddefnyddiol i gytuno ar gynllun cymorth gyda'r unigolyn a phwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu hyn. Os nad yw'r unigolyn â galluedd digonol, bydd angen cytuno ar gynllun fydd er ei fudd/budd gorau.

Risg tân ac opsiynau ar gyfer gweithwyr proffesiynol

2.13 Mae'n ddigon posibl y bydd pobl sy'n hunanesgeuluso yn esgeuluso agweddau eraill ar fywyd o ddydd i ddydd fel cynnal a chadw offer. Er enghraifft, gallai diffyg gwiriadau rheolaidd gan beiriannydd hyfforddedig arwain at foeler yn mynd yn anniogel. Efallai y bydd offer bob dydd fel popty/stôf yn stopio gweithio. Gall hyn arwain at fwy o arferion coginio dirgelaid a defnyddio deunyddiau gwrsylla neu fflamau agored. Mae eitemau o'r fath yn peri risg tân sylweddol ac mae'r risg yn cynyddu os yw'n gysylltiedig ag annibendod a llawer o eitemau yn cael eu cadw'n ddiangen. Mae socedi wedi'u gorlwytho a gwifrau wedi treulio (lle mae'r inswleiddiad allanol wedi treulio ac mae gwifrau byw ar ddangos) hefyd yn beryglon tân i fod yn effro iddyn nhw. O ddefnyddio canhwyllau, mae lefel y risg o dân yn uwch. Mae llawer o bobl yn defnyddio canhwyllau fel addurniadau. I bawb, gall anghofio eu diffodd neu beidio â chadw golwg arnyn nhw arwain at dân – (gall dalwyr canhwyllau losgi trwy'r arwyneb maen nhw'n sefyll arno). Serch hynny, os yw cleient yn defnyddio canhwyllau oherwydd nad oes golau/trydan yn yr eiddo, yna mae'n debygol y bydd yn defnyddio canhwyllau yn amlach ac yn gyson. Mae lefel y risg i'r cleient felly yn uwch.

2.14 Mae lefel y risg yn uwch i bobl sy'n hel eitemau'n ddiangen oherwydd bod mwy o ddeunydd yn eu cartrefi i'w losgi. Yn ail, mewn cartrefi lle mae'r preswlydd yn hel eitemau'n ddiangen, does dim modd cyrraedd pwyntiau trydan, offer trydanol, gwifrau, y boeler a mannau allweddol eraill yn hawdd er mwyn eu gwirio'n rheolaidd. Gall Cymdeithasau Tai neu landlordiaid preifat wneud y penderfyniad i dorri cyflenwadau trydan neu nwy os yw'r person yn gwrthod caniatáu gwaith cynnal a chadw arferol neu os yw'r eitemau mae'n eu cadw yn rhwystro mynediad. Gall hyn arwain at ddibyniaeth ychwanegol ar ganhwylau.

2.15 Un o'r ffactorau risg mwyaf peryglus yw ysmegu. Mae hyn yn dwysáu pan fydd yr ysmygwr yn taflu sigaréts mewn modd anghyfrifol neu'n syrthio i gysgu wrth ysmegu yn y gwely neu mewn cadair freichiau. Mae'r rhai sy'n cyfuno ysmegu ag yfed alcohol neu gymryd cyffuriau (yn ogystal â'r rheiny â phroblemau symudedd) hyd yn oed mewn mwy o berygl. Gallai annibendod hefyd atal dianc o'r eiddo pe bai tân.

3. Canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol

Gweithio gyda phobl sy'n hunanesgeuluso

3.1 Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg nad yw dull rheoli achos tymor byr o ran pobl sy'n hunanesgeuluso yn debygol o fod yn llwyddiannus. Mae achosion llwyddiannus yn y gorffennol wedi dangos bod angen y canlynol:

- meithrin perthynas,
- ennill ymddiriedaeth,
- gwrando ar bobl,
- asesu galluedd o ran gwneud penderfyniadau a sgiliau gwybyddol,
- ystyried hanes yr unigolyn a pham mae e/hi wedi dechrau hunanesgeuluso.

3.2 Rhaid amrywio'r cysyniad o ymdrin ag achosion yn gyflym wrth weithio gydag oedolion sy'n hunanesgeuluso: mae angen i reolwyr a goruchwylwyr ystyried hyn o ran dyrannu llwythi achos.

3.3 Mae hefyd yn amlwg o'r ymchwil i oedolion sy'n hunanesgeuluso bod ymyrryd yn gynnar yn fwy effeithiol nag aros nes bod y pryderon wedi dod yn fwy difrifol ac wedi ymwreiddio. Felly, gall cadw at feini prawf cymhwysedd yn rhy agos yn yr achosion yma fod yn wrthgynhyrchiol ac arwain at yr angen am gymorth mwy dwys, ymwithiol a chostus yn nes ymlaen. Yn ôl yr ymchwil, mae'r canlynol yn bwysig:

- Canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn ceisio sefydlu perthynas o ymddiriedaeth a chydweithrediad a all ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd yn derbyn cymorth
- Ymchwilio i gefndir y teulu a cheisio deall pam mae'r unigolyn yn dewis byw yn y modd yma a gwrthod gwasanaethau
- Peidio â derbyn gwrthodiadau arwynebol i wasanaethau, sy'n gadael gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n ymatebol i bob argyfwng yn hytrach nag ymgysylltu'n rhagweithiol â gwrthodiadau dro ar ôl tro
- Monitro anghenion sy'n newid er mwyn bod yn barod i ymateb pan fydd yr unigolyn yn cydnabod yr angen am help ac efallai'n barod i ymgysylltu.
- Sicrhau bod galluedd yn cael ei asesu a'i gofnodi'n drylwyr ar sail penderfyniad penodol a'i ailasesu dros amser.
- Datblygu llythrennedd cyfreithiol a chofnodi'r sail gyfreithiol dros benderfyniadau.

3.4 Dyma ddadansoddiad o argymhellion un deg naw o adolygiadau o achosion difrifol yn Lloegr lle roedd hunanesgeuluso'n bresennol:

defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cynnwys:

ymgysylltu rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol; talu sylw i anghenion diwylliannol ac anghenion o ran iaith a chyfathrebu; a rhoi dymuniadau, barn, profiadau ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn gyntaf. Pan fydd gwasanaethau yn cael eu gwrthod, dylid

ymchwilio'n fwy trylwyr i'r hyn sy'n ymddangos yn 'ddull byw o ddewis' ac i'r deilliannau mae'r unigolyn am eu cyflawni. Dylid cynnal cyswllt hefyd, yn hytrach na chau'r achos, fel y bydd modd meithrin ymddiriedaeth a gweithredu pan fydd agwedd a chymhelliant yr unigolyn yn newid.... Dylai [gweithwyr proffesiynol] hefyd ystyried aelwyd, teulu a chynhalwyr yr unigolyn, gydag argymhellion na ddylid anwybyddu cynhalwyr wrth gynnal asesiadau a chynllunio gofal. Yn ogystal â hynny, dylid ymchwilio i'r ddeinameg rhwng aelodau'r teulu gan y gallen nhw fod yn sail i'r hunanesgeulustod a dylanwadu'n ddwys ar benderfyniadau rhywun.'

3.5 Mae'r Athro Michael Preston-Shoot yn siarad am ymagwedd sy'n ystyriol o gefndiroedd, credoau a gwerthoedd amrywiol pobl, sef "care-fronting", gan eu herio mewn modd sensitif i ystyried goblygiadau eu hymddygiad a beth all y deilliannau fod. Mae hefyd yn bwysig symud o safbwynt gwranddo i safbwynt gweld. Mae hyn oherwydd y bydd llawer o bobl sy'n hunanesgeuluso yn aml yn dweud y pethau iawn ond yn methu â rhoi'r dymuniadau maen nhw wedi'u mynegi ar waith. Mae hyn yn symud y sgwrs rhwng y gweithiwr a'r oedolyn o 'Beth rydych chi'n mynd i fwyta heddiw?' i 'Dangoswch i mi sut byddwch chi'n prynu'r bwyd a'i goginio.'

3.6 Wrth wneud atgyfeiriadau neu fynd ar drywydd pryderon, y nod yw casglu gwybodaeth i lywio asesiad o angen a ddylai gynnwys:

- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni
- Manylion y Meddyg Teulu, Nyrs Ardal / Ymwelydd Iechyd
- P'un a oes ymyrraeth gan asiantaeth allanol
- Manylion unrhyw ymyrraeth gan y teulu/cysylltiadau
- Gwybodaeth am unrhyw gysylltiadau cymdeithasol neu deuluol
- P'un a yw'r oedolyn yn byw ar ei ben ei hun
- P'un a yw'r unigolyn yn gwybod bod atgyfeiriad yn cael ei wneud ac a yw wedi rhoi caniatâd
- Natur y pryder a barn yr unigolyn am hyn cyn belled ag y bod modd ei chanfod
- P'un a yw'r broblem yn un barhaus neu a yw lles yr unigolyn wedi dirywio'n sydyn.
- P'un a oes unrhyw blant neu oedolion agored i niwed eraill mewn perygl o niwed o ganlyniad i ymddygiad yr oedolyn

3.6 'Sut mae modd i ni gynorthwyo pobl sy'n hunanesgeuluso?' Mae RiPFA (Ymchwil i Waith Cymdeithasol i Oedolion) 2015 yn nodi 3 cham allweddol:

- 1.** Mae 'adnabod' yr unigolyn, ei hanes unigryw ac arwyddocâd ei hunanesgeulustod yn ategu'r adnoddau gwybodaeth proffesiynol y mae ymarferwyr yn dod â nhw i'w gwaith.
- 2.** Mae dealltwriaeth o'r fath yn cael ei chyflawni trwy ddefnyddio rhinweddau personol a phroffesiynol, sef, parch, empathi, gonestrwydd, amynedd, dibynadwyedd a gofal – y gallu i 'fod yn bresennol' ochr yn ochr â'r unigolyn er mwyn meithrin ymddiriedaeth.
- 3.** Yn olaf, mae'n bwysig gweithio mewn modd proffesiynol sy'n cyfuno gweithredu uniongyrchol â chymryd cam yn ôl, gan chwilio am y pethau bach mae modd i chi gytuno arnyn nhw a gwneud pethau (pethau ymarferol yn aml iawn) fydd yn gwneud gwahaniaeth bach tra byddwch chi hefyd yn trafod gwneud y newidiadau mwy. Mae'n

bwysig hefyd bod yn glir ynghylch ymyrraeth orfodol a phryd bydd hyn yn dod yn angenrheidiol.

Asesu Risg

3.8 Mae asesiad risg manwl a chadarn yn hanfodol mewn achosion o hunanesgeulustod difrifol er mwyn i ddifrifoldeb a thebygolrwydd canlyniadau niweidiol gael eu pwysu a mesur: dylai'r asesiad risg fod yn amlasiantaethol a chael ei goladu gan yr asiantaeth arweiniol gytunedig.

3.9 Dylai'r asesiad risg ystyried risgiau megis:

- P'un a yw'r person yn gwrthod triniaeth feddygol / meddyginiaeth; ydy hyn yn peryglu bywyd yr unigolyn?
- P'un a oes gwres, glanweithdra a dŵr digonol yn y cartref.
- P'un a oes arwyddion bod y cleient yn dioddef o ddiffyg maeth, e.e. gall fod arwyddion o gardota am fwyd neu sgwrio mewn biniau neu fe all yr unigolyn edrych yn denau.
- Cyflwr yr amgylchedd – mewn cyflwr gwael, presenoldeb fermin fel llygod mawr neu bryfed, cadw gormod o anifeiliaid anwes.
- P'un a oes tystiolaeth o hel eitemau'n ddiangen
- P'un a oes problemau diogelwch nwy neu drydan
- P'un a oes pryderon difrifol ynghylch lefel hylendid personol neu'r amgylchedd
- P'un a yw'r person yn dioddef o salwch, anaf neu afiechyd heb ei drin, a yw'n methu â gofalu amdano/amdani ei hun oherwydd problem gorfforol neu a yw'n isel ei ysbryd/hysbryd.
- P'un a oes gan yr oedolyn broblemau difrifol gyda'r cof neu wneud penderfyniadau, arwyddion o ddryswch neu ddementia sy'n golygu nad oes modd iddo/iddi ofalu amdano/amdani ei hun.
- P'un a oes risgiau cysylltiedig i blant
- Ceisiwch gadarnhau hanes bywyd yr oedolyn gydag ef/hi i helpu i ddeall ei sefyllfa bresennol gan gynnwys unrhyw golledion neu drawmâu mawr.

3.10 Pan fydd oedolyn yn gwrthod ymgysylltu ac yn ymddangos ei fod mewn perygl difrifol o niwed, mae asesiad gallu manwl a phenodol o'i sgiliau gwneud penderfyniadau a'i sgiliau gwybyddol yn hanfodol wrth helpu i benderfynu ar y ffordd orau i ymyrryd. Nid digwyddiad unigryw yw asesu galluedd yn yr amgylchiadau yma; bydd cyfres o asesiadau yn cael eu cynnal fel bydd gallu unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus (a gweithredu yn unol â nhw) yn dod yn fwy clir dros amser. Os yw'r unigolyn yn gwrthod cyswllt cychwynnol, mae'n bwysig peidio â chau'r achos tra bydd ansicrwydd yn parhau ynghylch lefel y risg a gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus am ei amgylchiadau a'i angen am gymorth.

Ymyriadau cyfreithiol

3.11 Ym mhob achos, dylid gweithio gyda phobl yn y ffordd leiaf ymwithiol a chyfyngol ac mewn modd sy'n cynnal dewis, rheolaeth ac urddas. Serch hynny, gall methu â gweithredu i gynorthwyo neu amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed hefyd fod yn esgeulus ac mae'n arwydd o fethiant i warchod eu hurddas a'u lles. Mae bob amser yn well sicrhau cydsyniad unigolyn ac ystyried mesurau mwy cyfyngol trwy rwymedïau cyfreithiol yn unig pan fydd hyn wedi methu, neu os yw'r sefyllfa'n argyfwng.

3.12 Mae rhagor o wybodaeth am ymyriadau cyfreithiol yn Atodiad 3.

Cymorth Tai

3.13 Gall Gwasanaethau Landlordiaid a Chymdeithasau Tai / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig chwarae rhan bwysig wrth gynorthwyo pobl sy'n hunanesgeuluso a/neu sy'n hel eitemau'n ddiangen. Gall Swyddogion Cymorth i Denantiaid helpu i feithrin perthnasoedd â'u tenantiaid mewn ymdrech i fod yn gefn i bobl sydd mewn angen a'u helpu i osgoi colli'u tenantiaeth a dod yn ddigartref. Weithiau, bydd cyfuniad o gymorth a gwybodaeth glir yn helpu i sicrhau ymgysylltiad oedolyn, hynny yw, gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a all ddigwydd os na fydd pobl yn cydweithredu, megis ceisiadau llys i adennill meddiant o eiddo sy'n golygu bod y tenant yn colli ei denantiaeth yn llwyr neu ddefnyddio gorchymyn cau adeilad dros dro er mwyn ei wella a sicrhau ei fod mewn cyflwr addas.

4. Galluedd Meddyliol, Hunanesgeuluso a Hel Eitemau'n Ddiangen

Asesu Galluedd

4.1 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi na all person wneud penderfyniad drosto'i hun os oes gydag ef nam parhaol neu dros dro ar weithrediad ei feddwl neu ei ymennydd (prawf diagnostig) **a'i** fod yn methu â gwneud un neu ragor o'r canlynol:

- (a) deall yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad
- (b) cofio'r wybodaeth honno
- (c) defnyddio neu bwysu a mesur yr wybodaeth honno yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad
- (ch) cyfleu ei benderfyniad/phenderfyniad (p'un ai trwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall).

4.2 Ni ddylid ystyried bod person yn methu â deall yr wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad os yw'n gallu deall esboniad ohono sy'n cael ei roi iddo/iddi mewn ffordd sy'n briodol i'w amgylchiadau/hamgylchiadau (gan ddefnyddio iaith syml, cymhorthion gweledol neu unrhyw ddull arall).

4.3 Mae darganfod a yw unigolyn â'r gallu i wneud penderfyniadau mewn perthynas â hunanesgeuluso a hel eitemau'n ddiangen yn aml yn broses heriol i lawer o weithwyr proffesiynol. Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn glir ynglŷn â'r rhagdybiaeth o alluedd a hawliau unigolion i wneud penderfyniadau a allai ymddangos yn annoeth neu'n ecsentrig. Serch hynny, lle mae unigolyn yn esgeuluso ei hun yn ddifrifol ac mae ei fywyd/bywyd o dan fygythiad o ganlyniad i hynny, bydd angen ystyried a yw gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau yn ddiffygiol oherwydd problem sylfaenol i weithrediad ei feddwl/meddwl neu ei ymennydd/hymennydd. Pan fo'r unigolyn yn ansicr neu'n gwrthod cael cymorth, dydy hyn ddim yn hawdd ond rhaid rhoi cynnig arni. Os nad yw'n bosibl asesu gallu gwneud penderfyniadau'r unigolyn ar ôl pob ymgais, dylid ceisio cyngor cyfreithiol, oherwydd efallai y bydd angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod am ddatganiad o alluedd meddyliol yr unigolyn i wneud y penderfyniadau perthnasol.

4.4 Ambell waith, bydd ymarferydd sy'n ymddrin ag unigolyn sy'n hunanesgeuluso ac yn gwrthod derbyn cymorth, yn defnyddio gofyniad y Ddeddf Galluedd Meddyliol i ddod i gasgliad arwynebol bod gan yr unigolyn alluedd. Serch hynny, gall y dystiolaeth ategol

sy'n dangos bod niwed yn digwydd olygu bod angen edrych yn agosach. Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn nodi ei bod hi'n bosibl bod angen ymchwilio ymhellach gan gymryd i ystyriaeth penderfyniadau a dewisiadau'r unigolyn yn y gorffennol, os yw rhywun yn gwneud penderfyniadau annoeth dro ar ôl tro sy'n ei roi mewn perygl sylweddol o niwed neu ecsbloetio neu'n gwneud penderfyniad annoeth penodol sydd ddim yn cyd-fynd â'i gymeriad. Dydy hyn, er hynny, ddim yn golygu nad oes galluedd gan y person o reidrwydd. Er enghraifft, ydy e/hi wedi datblygu cyflwr neu anhwylder meddygol sy'n effeithio ar ei allu/gallu i wneud penderfyniadau penodol? Ydy hi'n hawdd dylanwadu arno/arni o'i roi/rhoi dan bwysau gormodol? Neu oes angen rhagor o wybodaeth arno/arni i'w helpu i ddeall canlyniadau'r penderfyniad mae hi/e'n ei wneud?

4.5 Mewn achosion o hunanesgeulustod, mae'n hanfodol bod galluedd unigolyn i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'i ofal/gofal personol a domestig yn cael ei asesu'n ofalus. Mae galluedd yn briodoldeb cymhleth, sy'n cynnwys nid yn unig y gallu i ddeall canlyniadau penderfyniad ond hefyd y gallu i gyflawni'r penderfyniad. Heb asesiad mwy manwl o alluedd, mae risg na fydd y diffyg sgiliau gwybyddol yn cael ei adnabod a gall y farn fod bod y person yn gwneud dewis â galluedd, lle, mewn gwirionedd, dydy e ddim yn gallu cymryd y camau angenrheidiol i gadw ei hunan yn ddiogel. O ran pobl sy'n hel eitemau'n ddiangen, efallai y bydd anhwylderau iechyd meddwl sylfaenol megis anhwylder obsesiynol-orfodol (OCD) sy'n effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u heiddo.

4.6 Mae pryder hefyd y gall asesiadau galluedd anwybyddu natur galluedd sy'n benodol i wneud penderfyniadau sy'n golygu y tybir bod y person yn gallu gwneud penderfyniadau syml o'u cymharu â rhai mwy cymhleth. Mae Adroddiad 46 Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) 'Self-neglect and adult safeguarding: findings from research' (<http://www.scie.org.uk/publications/reports/report46.pdf>) yn darparu rhestr fanwl o wybodaeth ac ymchwil amrywiol ynglŷn ag asesu galluedd a'r agweddau amrywiol o ran gallu unigolyn i wneud penderfyniadau am ei fywyd. Mae adroddiad y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth yn awgrymu bod *'rhaid i'r galluedd gynnwys y gallu i wneud penderfyniad mewn ymwybyddiaeth lawn o'i ganlyniadau, a hefyd y galluedd i'w gyflawni'*. Mae hyn yn golygu na ddylid defnyddio asesiad galluedd unigolyn i benderfynu a ddylid caniatáu i weithiwr proffesiynol fynd i'w gartref i gynnal asesiad er mwyn dod i gasgliad hefyd ynglŷn â'i allu i goginio, mynd i siopa, cynllunio ar gyfer apwyntiadau iechyd, dod i ben â threfniadau ariannol gan gynnwys talu biliau cyfleustodau neu rent ac i drefnu'r gwaith golchi dillad a gwaith tŷ. Mewn rhai achosion, gall galluedd rhywun i wybod bod angen iddo wneud y pethau yma gael ei rwystro gan y boen a'r ymdrech sy'n ofynnol i'w cyflawni, gan iselder difrifol neu falchder sy'n ei atal rhag cydnabod yr angen am help.

4.7 Os yw hi wedi bod yn bosibl asesu bod yr oedolyn yn gwneud 'penderfyniad â galluedd' i wrthod cymorth, rhaid i'r risgiau o wneud y penderfyniad yma gael eu trafod gyda'r unigolyn i sicrhau ei fod yn gwbl effro i ganlyniadau ei benderfyniad. Dylai hyn gael ei gofnodi. Yn yr amgylchiadau yma, mae perffaith hawl gan yr unigolyn i wrthod gwasanaethau sy'n gadael ymyrraeth gyfreithiol fel yr unig opsiwn.

4.8 Gall rhywun sy'n hel eitemau'n ddiangen arddangos y canlynol:

pryder difrifol wrth geisio cael gwared ar eitemau, meddyliau a gweithredoedd obsesiynol: ofn mynd yn brin o eitem neu ei angen yn y dyfodol; mynd trwy'r sbwriel rhag ofn bod eitem wedi cael ei thafu ar ddamwain

- ei chael hi'n anodd cael gwared ag unrhyw beth neu'n symud eitemau o un pentwr i'r llall
- ei chael hi'n anodd categoreiddio neu drefnu eitemau
- ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau
- cadw neu gasglu eitemau nad oes unrhyw werth ariannol iddyn nhw, megis post sothach a bagiau cludo, neu eitemau y mae'n bwriadu eu hailddefnyddio neu eu hatgyweirio
- trallod, fel teimlo ei fod wedi'i lethu neu deimlo cywilydd oherwydd ei feddiannau
- ei chael hi'n anodd rheoli tasgau bob dydd fel coginio, glanhau a thalu biliau
- methu â gadael i eitemau fynd a datblygu hoffter anarferol tuag atyn nhw, a gwrthod gadael i rywun arall gyffwrdd â nhw neu eu benthyca
- namau gweithrediadol, gan gynnwys colli lle byw, arwahanrwydd cymdeithasol, anghytgord teuluol neu briodasol, anawsterau ariannol, peryglon iechyd.

4.9 Mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod hel eitemau'n ddiangen yn aml yn dechrau yn ystod yr arddegau (mor gynnar â 13 neu 14 oed), lle mae teganau wedi torri neu bapurau ysgol yn cael eu casglu. Yna mae'r duedd yn gwaethygu wrth heneiddio. Yn ôl yr amcangyfrifon, mae symptomau o hel eitemau'n ddiangen ymhlith tua 2-5% o boblogaeth oedolion y DU. Gall hel eitemau'n ddiangen arwain at fywyd o ansawdd is. Gall y casgliad arwain at lai o le i fyw ac yn aml mae'n cyfyngu ar fywyd preifat a theuluol, er enghraifft trwy ei gwneud hi'n amhosibl gwahodd ffrindiau yn ôl i'r tŷ a chan ofnau cywilydd oherwydd yr eitemau diangen. Gall problem hel eitemau eithafol arwain at risgiau difrifol i fywyd trwy'r posibilrwydd y bydd yr eitemau yn cwmpo ar yr unigolyn a risg tân gyda diffyg dull o ddianc. Gall hefyd atal glanhau fel mater o drefn a fydd yn arwain at blâu o bryfed neu anifeiliaid. Weithiau mae'r eitemau mor niferus, does dim modd defnyddio ystafelloedd a gall hyn gynnwys yr ystafell ymolchi a'r gegin. Mae risgiau tân yn cynyddu pan fydd y person yn ceisio coginio gyda deunyddiau fflamadwy o'i gwmpas. Yn ogystal â pheri risg i'r unigolyn, gall cymdogion hefyd gael eu rhoi mewn perygl o dân a phlâu. Pan fydd yr unigolyn sydd â'r anhwylder yma yn rhan o deulu, yn aml, mae effaith andwyol ar fywyd teuluol arferol a gall plant ddiodeff niwed o ddod yn ynysig yn gymdeithasol ac mae'n bosibl na fydd unman gyda nhw i storio eu heiddo eu hunain neu wneud gwaith cartref.

4.10 Mae hel eitemau'n ddiangen bellach wedi'i gydnabod fel anhwylder meddyliol yn y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau. Mae pobl sy'n hel eitemau'n ddiangen yn aml wedi diodeff trawma neu golledion yn eu bywydau sy'n arwain at bryder, iselder ysbryd ac ymddygiadau obsesiynol/cymhellol. Mae'r person yn datblygu ymlyniad emosiynol eithafol â'r eitemau.

4.11 Bydd gan lawer o'r bobl yma'r gallu i wneud penderfyniadau am eu casgliadau ond yn aml, byddan nhw eisiau bywyd gwell ond ar yr un pryd, yn seicolegol ac yn emosiynol, yn methu â chael gwared ar eu heitemau. Er mwyn cynorthwyo unigolyn sydd â'r anhwylder yma, efallai y bydd angen anogaeth ynghyd ag ymyriadau therapiwtig megis cwnsela. Gall rhai pobl sy'n hel eitemau'n ddiangen wneud hynny oherwydd bod eu sgiliau gwybyddol yn dirywio trwy ddementia neu anhwylder arall sy'n eu hatal rhag gallu rheoli eu meddiannau a chael gwared arnyn nhw. Mae'n bwysig cael gwybod hanes bywyd yr unigolyn er mwyn darganfod a yw'r anhwylder yn hirsefydlog ac yn gysylltiedig ag anhwylder seicolegol neu a yw'n gysylltiedig â cholli gallu gwybyddol neu anabledd dysgu. Bydd y rheswm dros yr ymddygiad yma yn helpu i lywio'r ffyrdd gorau o ymyrryd.

4.12 Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn argymhell bod cyfnod o therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) yn cael ei ystyried ar gyfer oedolion sydd â phroblemau sylweddol o ran hel eitemau'n ddiangen. Mae sesiynau rheolaidd o CBT dros gyfnod hir o amser fel arfer yn angenrheidiol a dylen nhw gynnwys rhai sesiynau yn y cartref, gan weithio'n uniongyrchol ar yr annibendod. Mae hyn yn gofyn am gymhelliant, ymrwymiad ac amynedd, oherwydd gall gymryd misoedd lawer i gyflawni nod y driniaeth. Y nod yw gwella sgiliau gwneud penderfyniadau a sgiliau trefnu'r unigolyn, ei helpu i oresgyn yr awydd i gadw pethau, ac yn y pen draw, clirio'r annibendod, un ystafell ar y tro. Fydd y therapydd ddim yn cael gwared ag unrhyw beth ond bydd yn helpu i arwain ac annog yr unigolyn i wneud hynny. Gall y therapydd hefyd helpu'r unigolyn i ddatblygu strategaethau gwneud penderfyniadau, gan nodi a herio agweddau sylfaenol sy'n cyfrannu at y broblem. Yn raddol, mae'r unigolyn yn datblygu'r gallu i gael gwared ar bethau, gan ddysgu nad oes unrhyw beth ofnadwy yn digwydd pan fydd yn gwneud hynny. Mae e/hi felly yn datblygu'r gallu i drefnu'r eitemau mae'n mynnu eu cadw. Efallai y bydd yn cael ei annog hefyd i gadw cofnod dyddiol o'r hyn mae wedi'i brynu i fonitro annibendod sy'n dod i mewn i'r cartref. Mewn rhai achosion, gall cymorth gan wasanaethau clirio annibendod helpu, ond yn anaml y bydd hyn yn llwyddiannus yn y tymor hir oni bai ei fod yn cael ei wneud mewn modd sensitif gyda chydweithrediad a chydysniad yr unigolyn sy'n hel eitemau'n ddiangen. Os na fydd yn cael ei wneud yn y modd yma, gall ychwanegu at y trawma a dwysáu'r angen i ddechrau casglu pethau eto.

4.13 Ar ddiwedd y driniaeth, efallai na fydd yr unigolyn wedi clirio ei holl annibendod ond bydd wedi ennill gwell dealltwriaeth o'r broblem. Bydd ganddo/ganddi gynllun i'w helpu i barhau i adeiladu ar ei llwyddiannau/llwyddiannau ac osgoi llithro'n ôl i'w hen ffyrdd.

Serch hynny, os yw'r ymddygiad oherwydd dirywiad gwybyddol neu anabledd dysgu, efallai na fydd therapi seicolegol yn fuddiol; yn lle hynny efallai y bydd angen cymorth ymarferol parhaus ar yr unigolyn i gynnal ei gartref.

Cyswllt cychwynnol

4.14 Gall unrhyw nifer o wahanol ffynonellau godi pryderon ynghylch pobl sy'n hunanesgeuluso, gan gynnwys aelodau pryderus o'r teulu neu gymdogion a allai roi gwybod i'r Cyngor. Gall sefydliadau gwirfoddol, megis Age Cymru, neu eglwysi a grwpiau ffydd, sydd eisoes yn cynorthwyo unigolyn ddod i wybod am bryderon hunanesgeuluso. Gall asiantaethau statudol eraill mynegi pryderon hefyd, fel y Gwasanaeth Ambiwlans, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân neu ddarparwyr iechyd gan gynnwys meddygon teulu, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau dibyniaeth a staff ysbytai. Mae darparwyr tai hefyd yn aml yn dod i wybod am bobl sy'n hunanesgeuluso ac efallai mai nhw fydd y cyntaf i fynegi pryderon difrifol am denant.

Eiriolaeth a chymorth

4.15 Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi bod rhaid i Awdurdod Lleol drefnu, lle bo hynny'n briodol, i eiriolwr annibynnol gynrychioli a chynorthwyo oedolyn o'i gyswllt cychwynnol â'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn galluogi'r oedolyn i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y broses asesu a chynllunio gofal a chymorth. Mae pobl sy'n hunanesgeuluso neu'n hel eitemau'n ddiangen yr un mor debygol o gytuno i dderbyn cymorth gan eiriolwr

ag y maen nhw gan unrhyw weithiwr proffesiynol arall. Serch hynny, dylid ystyried a chadw mewn cof yr angen am eiriolaeth. Mae hyn yn arbennig o wir os gall sefyllfa'r unigolyn arwain at sancsiynau, er enghraifft os yw'r landlord yn ceisio gorchymyn adennill meddiant oherwydd cyflwr anniogel yr eiddo.

4.16 Mewn achosion o amheuaeth o hunanesgeulustod, y cam gweithredu cyntaf fyddai gweithio ochr yn ochr â pherson i'w rymuso i newid ei sefyllfa. Serch hynny, mae pobl sy'n esgeuluso eu hunain yn aml yn amheus o awdurdod a gall ennill ymddiriedaeth a chydysnio i ofal gymryd amser. Efallai y bydd adegau pan fydd angen cymryd camau cyfreithiol, pan fydd pob ymgais i weithio gyda'r unigolyn wedi methu ac nad yw'r risgiau'n gynaliadwy.

Atodiad 1: Graddfa Sgorio Annibendod

Wedi'i haddasu o: Frost, RO, Steketee G, Tolin DF, Renaud S. Development and validation of the Clutter Image Rating. Journal of Psychopathology and Behavioral Assessment. 2008;32:401–417

Lefel 1



1	2	3
---	---	---

Annibendod lefel isel – Datblygu perthynas gyda'r person dan sylw. Ystyried gallu'r unigolyn i ddeall y cytundeb tenantiaeth. Helpu'r person i ymgysylltu â phynciau o ddiddordeb a chwrdd ag eraill sydd â diddordeb tebyg yn y gymuned leol – datblygu perthnasoedd.



1	2	3
---	---	---



Lefel 1 Sgôr annibendod 1, 2	Mae amgylchedd y cartref yn cael ei ystyried yn un safonol. Does dim angen cymorth arbenigol.
1. Strwythur yr eiddo, gwasanaet hau a'r ardd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae modd cyrraedd yr holl fynedfeydd ac allanfeydd, grisiau, gofod to a ffenestri. • Larymau mwg wedi'u gosod ac maen nhw'n gweithio / atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r frigâd dân i ymweld â'r cartref a'u gosod. • Mae'r holl wasanaethau'n weithredol ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da.
2. Swyddogaeth Aelwydyd	<ul style="list-style-type: none"> • Dim annibendod gormodol, mae modd defnyddio pob ystafell yn ddiogel at ei diben bwriadedig. • Mae pob ystafell yn cael ei graddio 0-3 ar y Raddfa Sgorio Annibendod • Does dim offer cartref ychwanegol sydd ddim yn cael eu defnyddio sy'n ymddangos mewn lleoliadau anarferol o amgylch yr eiddo • Mae'r eiddo'n cael ei gynnal o fewn telerau unrhyw
3. Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r eiddo'n lân heb unrhyw arogleuon, (anifail anwes neu rywbeth arall) • Dim bwyd yn pydru • Dim defnydd o ganhwyllau sy'n achosi pryder • Dim pryder ynghylch pryfed • Mae'r preswylwyr yn ymgymryd â gofal personol • Does dim ysgrifen ar y waliau • Mae'r feddyginiaeth o fewn y terfynau priodol o ran
4. Anifeiliaid a Phlâu	<ul style="list-style-type: none"> • Mae unrhyw anifeiliaid anwes yn yr eiddo yn derbyn gofal da
5. Cyfarpar Diogelu Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Does dim angen Cyfarpar Diogelu Personol • Does dim angen ymweld mewn parau

Lefel 2



4	5	6
---	---	---

Annibendod cymedrol – Nodi'r person mwyaf addas i ymgysylltu â'r person. Ymholiadau i ystyried pam a phryd y dechreuodd hyn, galluedd yr unigolyn i wneud pob penderfyniad perthnasol gan gynnwys y gallu i ddeall y cytundeb tenantiaeth. Efallai y bydd yr asiantaeth fwyaf addas yn arwain ymateb amlasiantaethol. Mae angen asesiad risg a gweithio gyda'r unigolyn dan sylw ar ei gyflymder ei hun. Peidiwch â thrafod symud unrhyw nwyddau nes bod cydberthynas wedi datblygu ac asesiad llawn o anghenion, gwerthoedd a dymuniadau'r unigolyn wedi'i gynnal.



4	5	6
---	---	---



<p>Lefel 2 <i>Sgôr annibendod 4 - 6</i></p>	<p>Mae angen cymorth proffesiynol ar amgylchedd y cartref i ddatrys yr annibendod a'r materion cynnal a chadw yn yr eiddo.</p>
--	--

1. Strwythur yr eiddo, gwasanaethau a'r ardd	<ul style="list-style-type: none"> • Dim ond allanfa fawr sydd wedi'i rhwystro • Dim ond un o'r gwasanaethau sydd ddim yn gwbl weithredol • Pryder nad yw gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda • Does dim larymau mwg wedi'u gosod neu dydyn nhw ddim yn gweithio • Dydy'r ardd ddim yn hygyrch oherwydd annibendod, neu dydy'r ardd ddim yn cael ei chynnal a'i chadw • Tystiolaeth o eitemau dan do wedi'u storio y tu allan i'r eiddo
2. Natur ymarferol y cartref	<ul style="list-style-type: none"> • Mae annibendod yn achosi tagfeydd yn y lleoedd byw ac yn effeithio ar ddefnydd yr ystafelloedd at eu diben bwriadedig. • Mae annibendod yn achosi tagfeydd rhwng yr ystafelloedd a'r mynedfeydd. • Sgôr ystafell(oedd) rhwng 4-5 ar y raddfa annibendod. • Lefelau anghyson o waith cadw tŷ drwy'r eiddo i gyd • Dydy rhai o'r offer yn y cartref ddim yn gweithio'n iawn ac efallai y bydd unedau ychwanegol mewn lleoedd anghyffredin. • Mae'r eiddo'n cael ei gynnal o fewn telerau unrhyw brydles neu gytundeb tenantiaeth lle bo hynny'n
3. Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> • Dydy'r gegin na'r ystafell ymolchi ddim yn cael ei chadw'n lân • Aroglau ffiائد yn yr eiddo • Dydy'r preswlydd ddim yn cynnal amgylchedd coginio diogel • Mae rhai pryderon yn ymwneud â faint o feddyginiaeth sy'n cael ei chadw, sut mae'n cael ei storio neu'i dyddiadau dod i ben. • Dim bwyd yn pydru • Dim defnydd o ganhwyllau sy'n achosi pryder • Preswlydd yn ceisio cynnal ei ofal personol ond yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny
4. Anifeiliaid a Phlâu	<ul style="list-style-type: none"> • Dydy'r anifeiliaid anwes yn yr eiddo ddim yn cael gofal digonol • Dydy'r preswlydd ddim yn gallu rheoli'r anifeiliaid • Dydy'r ardal lle mae anifeiliaid yn byw ddim yn cael ei chynnal ac mae'n drewi • Mae'n ymddangos nad yw'r anifeiliaid yn cael digon o fwyd neu'n cael eu gorfwydo • Mae modd clywed llygod yn yr eiddo
5. Cyfarpar Diogelu Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Menig latecs, esgidiau uchel neu esgidiau sy'n ddiogel rhag nodwyddau, mwgwd wyneb, diheintydd dwylo, peth ymlid pryfed. • Cyfarpar Diogelu Personol sydd ei angen

Lefel 3



7	8	9
---	---	---

Annibendod lefel uchel – Lle mae risg i les corfforol a meddyliol yr unigolyn, cyfarfod amlasiantaeth llawn yn cael ei gynnal i gynllunio'r broses asesu ac ymyrryd.

Lefel 3 Sgôr annibendod 1 - 3	Bydd amgylchedd y cartref yn gofyn am ymyrraeth gyda dull amlasiantaeth cydweithredol gyda chyfraniad gan ystod eang o weithwyr proffesiynol. Mae'r lefel yma o hel eitemau'n ddiangen yn golygu atgyfeiriad diogelu oherwydd y risg sylweddol i iechyd y deiliaid tai, yr eiddo cyfagos a'r preswylwyr.
---	--



7	8	9
---	---	---



1. Strwythur yr eiddo, gwasanaethau a'r ardd	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad cyfyngedig i'r eiddo oherwydd annibendod eithafol • Mae modd gweld tystiolaeth o annibendod eithafol wrth y ffenestri • Mae modd gweld tystiolaeth o annibendod eithafol y tu allan i'r eiddo • Dydy'r ardd ddim yn hygyrch ac mae wedi tyfu'n wyllt i raddau helaeth • Gwasanaethau heb eu cysylltu neu ddim yn gweithio'n iawn • Does dim larymau mwg wedi'u gosod neu dydyn nhw ddim yn gweithio • Mae diffyg awyru yn yr eiddo oherwydd annibendod • Tystiolaeth o ddifrod strwythurol neu atgyweiriadau sydd angen eu gwneud gan gynnwys lleithder • Drysau mewnol ar goll neu wedi'u blocio ar agor
2. Natur ymarferol y cartref	<ul style="list-style-type: none"> • Mae annibendod yn rhwystro'r lleoedd byw ac yn atal yr ystafelloedd rhag cael eu defnyddio at eu diben bwriadedig. • Sgôr ystafell(oedd) rhwng 7-9 ar y raddfa annibendod. • Dydy'r ystafelloedd ddim yn cael eu defnyddio at y dibenion bwriadedig neu maen nhw'n gyfyngedig iawn • Gwelyau yn anhygyrch neu does dim modd eu defnyddio oherwydd annibendod neu bla • Mynedfeydd, cynteddau a grisiau wedi'u blocio neu'n anodd eu pasio • Dydy'r toiledau a'r sinciau ddim yn gweithio neu does dim modd eu defnyddio • Mae'r preswlydd mewn perygl oherwydd yr amgylchedd byw • Dydy'r offer cartref ddim yn gweithio neu maen nhw'n anhygyrch • Does gan y preswlydd ddim amgylchedd coginio diogel • Mae'r preswlydd yn defnyddio canhwyllau • Tystiolaeth o eitemau awyr agored yn cael eu storio y tu mewn i'r eiddo • Does dim tystiolaeth o waith cadw tŷ • Eitemau cartref wedi'u torri ond heb gael eu taflu, e.e. gwydr neu blatiau wedi'u torri
3. Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> • Gall wrin a/neu garthion dynol fod yn bresennol • Arogl gormodol yn yr eiddo a all fod yn amlwg o'r tu allan hefyd • Gall bwyd sy'n pydru fod yn bresennol • Gall fod tystiolaeth o blatiau a llestri aflan neu heb eu defnyddio, neu blatiau a llestri o dan bentwr o bethau eraill • Eitemau cartref wedi'u torri ond heb gael eu taflu, e.e. gwydr neu blatiau wedi'u torri • Llawer o feddyginiaeth neu feddyginiaeth sy'n cael ei storio'n amhriodol. • Arogleuon miniog y tu mewn i'r eiddo y mae modd o bosibl eu clywed o'r tu allan. • Pryder ynglŷn â dibynadwyedd y trydan • Defnydd amhriodol o gortynnau estyn trydanol neu dystiolaeth o waith wedi'i wneud gan weithiwr sydd ddim yn gymwys.
4. Anifeiliaid a Phlâu	<ul style="list-style-type: none"> • Anifeiliaid yn yr eiddo sydd mewn perygl oherwydd lefel yr annibendod • Efallai nad yw'r preswlydd yn gallu rheoli'r anifeiliaid yn yr eiddo

	<ul style="list-style-type: none"> • Dydy'r ardal lle mae anifeiliaid yn byw ddim yn cael ei chynnal ac mae'n drewi • Mae'n ymddangos nad yw'r anifeiliaid yn cael digon o fwyd neu'n cael eu gorfwydo • Casglu anifeiliaid yn yr eiddo • Pla lefel uchel o bryfed (chwilod gwely, llau, chwain, chwilod duon, morgrug, pryfed arian ac ati)
5. Cyfarpar Diogelu Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Menig latecs, esgidiau uchel neu esgidiau sy'n ddiogel rhag nodwyddau, mwgwd wyneb, diheintydd dwylo, peth ymlid pryfed. • Cyfarpar Diogelu Personol svdd ei angen

1. Cwestiynau Enghreifftiol ar gyfer Ymarferwyr

Isod, mae enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn lle rydych chi'n poeni am ddiogelwch rhywun yn ei gartref ei hunan, lle rydych chi'n amau risg o hunanesgeuluso a hel eitemau'n ddiangen

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu o'r cwestiynau yma'n llywio asesiad ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i rybuddio asiantaethau eraill. Bydd llawer o bobl sydd â phroblem hel eitemau'n ddiangen yn teimlo cywilydd am eu hamgylchedd, felly addaswch y cwestiwn i weddu i'ch pobl.

- Sut rydych chi'n mynd i mewn ac yn dod allan o'ch eiddo? Ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn byw yma?
- Ydych chi erioed wedi cael damwain, wedi llithro, baglu neu gwympo? Sut y digwyddodd hyn?
- Sut rydych chi wedi gwneud eich cartref yn fwy diogel i atal hyn rhag digwydd eto?
- Sut rydych chi'n symud yn ddiogel o amgylch eich cartref (lle mae'r llawr yn anwastad neu wedi'i orchuddio, neu lle mae gwifrau agored, lleithder, pydredd neu beryglon eraill)
- Oes achos damweiniol o dân wedi digwydd?
- Sut mae cael dŵr poeth, golau, gwres yma? Ydy'r gwasanaethau yma'n gweithio'n iawn? Ydyn nhw erioed wedi cael eu profi?
- Ydych chi'n defnyddio canhwyllau neu fflam agored i gynhesu a goleuo'ch cartref neu'n coginio gyda nwy gwersylla?
- Sut rydych chi'n cadw'ch hun yn gynnes? Yn enwedig yn y gaeaf?
- Pryd aethoch chi allan i'ch gardd ddiwethaf? Ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn mynd allan i'r ardd?
- Ydych chi'n poeni am bobl eraill yn dod i mewn i'ch gardd i geisio torri i mewn? Ydy hyn erioed wedi digwydd?
- Ydych chi'n poeni am lygod, llygod mawr neu lwynogod, neu blâu eraill? Ydych chi'n gadael bwyd allan iddyn nhw?
- Ydych chi erioed wedi gweld llygod neu lygod mawr yn eich cartref? Ydyn nhw wedi bwyta'ch bwyd? Ydy hi'n bosibl eu bod nhw'n nythu yn unrhyw le?
- Oes modd i chi baratoi bwyd, coginio a golchi llestri yn eich cegin?
- Ydych chi'n defnyddio'ch oergell? Ga i edrych ynddi? Sut rydych chi'n cadw pethau'n oer yn y tywydd poeth?

- Sut rydych chi'n cadw'ch hun yn lân? Ga i weld eich ystafell ymolchi? Oes modd i chi ddefnyddio'ch ystafell ymolchi a'r toiled yn iawn? Oes modd i chi ymolchi, cael bath? Cael cawod?
- Wnewch chi ddangos i mi ble rydych chi'n cysgu a gadael imi weld eich ystafelloedd i fyny'r grisiau? Ydy'r grisiau'n ddiogel? (os oes rhai)
- Beth rydych chi'n ei wneud gyda'ch dillad brwnt?
- Ble rydych chi'n cysgu? Oes modd i chi newid eich dillad gwely yn rheolaidd? Pryd newidoch chi nhw ddiwethaf?
- Sut rydych chi'n cadw'ch hun yn gynnes yn ystod y nos? Oes blancedi ychwanegol gyda chi i'w rhoi ar eich gwely os ydych chi'n oer?
- Oes unrhyw ffenestri wedi'u torri yn eich cartref? Oes unrhyw atgyweiriadau y mae angen eu gwneud?
- Oherwydd nifer yr eitemau sydd gyda chi, ydych chi'n ei chael hi'n anodd defnyddio rhai o'ch ystafelloedd? Os ydych chi, pa rai?
- Ydych chi'n ei chael hi'n anodd taflu pethau neu i ba raddau rydych chi'n ei chael hi'n anodd taflu, ailgylchu, gwerthu neu roi eitemau i rywun arall?

Atodiad 2: Rhestr Wirio ar gyfer Dangosyddion Risg – Hunanesgeuluso a/neu hel eitemau'n ddiangen

FFACTORAU	ARWEINIAD			
1. Pa mor agored i niwed mae'r unigolyn	Llai agored i niwed	Mwy agored i niwed		<ul style="list-style-type: none"> Oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â gofal a chymorth / llety ac ati? Oes gan yr unigolyn anhwylder meddwl wedi'i ddiagnosio? Oes gan yr unigolyn ddibyniaeth ar alcohol neu sylwedd? Oes gan yr unigolyn unrhyw rwydwaith cymorth anffurfiol? Ydy'r unigolyn yn derbyn gwasanaethau cymorth? Ydy'r unigolyn yn deall yr heriau y mae'n eu hwynebu?
2. Graddau difrifoldeb hel eitemau'n ddiangen	Risg isel	Cymedrol	Uchel/Critigol	<ul style="list-style-type: none"> Cyfeiriwch at y tabl drosodd. Mathau o broblemau a pha mor ddifrifol ydyn nhw. Edrychwch ar y categorïau perthnasol a defnyddio'ch gwybodaeth am yr unigolyn a'ch barn broffesiynol i fesur difrifoldeb y pryder. Gallai un asiantaeth fynd i'r afael â phroblem risg isel gyson. <p>Fydd hyn ddim yn disodli barn broffesiynol a dydy e ddim yn anelu at osod trothwy anhyblyg ar gyfer ymyrraeth ond mae'n ceisio darparu fframwaith i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau proffesiynol.</p>
Hunanesgeulustod				
Casglu Eiddo				
Hel eitemau'n ddiangen a natur ymarferol y cartref				
Hel eitemau'n ddiangen – Iechyd a Diogelwch				
3. Lefel Hunanesgeuluso / Hel eitemau'n ddiangen	Risg isel	Risg gymhedrol	Risg uchel	<p>Darganfyddwch a all y broblem hel eitemau/hunanesgeuluso arwain at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Risg Tân Effaith ar les yr unigolyn (diffiniad Deddf Gofal 2014)? Atal mynediad i wasanaethau brys? Effaith ar allu'r unigolyn i goginio, glanhau a chynnal hylendid cyffredinol? Cyfyngu ar fynediad i briif rannau'r tŷ? Ydy'r unigolyn yn fwy tebygol o gwmpo?
4. Cefndir i hunanesgeuluso / hel eitemau'n ddiangen	Effaith lefel isel		Effaith lefel uchel iawn	<ul style="list-style-type: none"> Oes gan yr unigolyn anabledd sy'n golygu na all ofalu amdano'i hun? Oes gan yr unigolyn broblemau iechyd meddwl ac i ba raddau? Ydy hyn wedi bod yn broblem barhaus? Ydy'r unigolyn yn ymgysylltu â'r gwasanaethau, y cymorth a'r arweiniad sy'n cael eu cynnig? Oes problemau ynysu cymdeithasol?
5. Effaith ar Eraill	Does neb arall yn cael ei effeithio	Mae effaith anuniongyrchol ar eraill	Mae effaith uniongyrchol ar eraill	<p>Gall eraill gael eu heffeithio gan yr hunanesgeulustod neu'r eitemau diangen. Penderfynwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> A oes pobl agored i niwed eraill (Plant neu oedolion) yn y tŷ sy'n cael eu heffeithio gan hunanesgeulustod / eitemau diangen yr unigolyn? A ydy'r eitemau diangen / hunanesgeulustod yn atal yr unigolyn rhag gweld ei deulu a'i ffrindiau? A oes anifeiliaid yn yr eiddo sydd ddim yn cael y gofal priodol?
6. Amheuaeth resymol o gam-drin neu esgeulustod gan unigolion eraill	Dim amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod gan unigolion eraill	Mae rhai dangosyddion yn bresennol	Mae amheuaeth resymol yn bodoli	<p>Penderfynwch a oes rheswm i amau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod yr hunanesgeulustod / eitemau diangen yn ddangosydd o gamdriniaeth neu esgeulustod gan rywun arall Bod trosedd yn digwydd Bod yr unigolyn yn cael ei gam-drin/ecsbloetio gan bobl leol <p>Os oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol, gofynnwch am gyngor gan Garfanau Diogelu Oedolion yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Cyflwynwch Adroddiad Diogelu.</p>
7. Fframweithiau Cyfreithiol	Dim materion	Rhai materion cyfreithiol ond does	Materion cyfreithiol difrifol	<p>Ceisiwch benderfynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> a yw'r unigolyn mewn perygl o gael ei droi allan, o ddirwyon, o faterion diffyg talu a oes risg amgylcheddol sy'n gofyn am weithredu – Materion iechyd cyhoeddus a oes problemau o ran diogelwch a lles anifeiliaid

cyfreithiol
cyfredol

dim effaith
ar hyn o
bryd

- a oes risgiau tân sy'n berygl i eraill

Mathau a Dirifoldeb	Enghreifftiau o bryderon a allai gael eu rheoli gan ddull un asiantaeth.	Mae'r enghreifftiau isod yn debygol o ofyn am ddull amlasiantaeth, cydgysylltiedig. Os yw unrhyw weithiwr proffesiynol yn canfod bod yr unigolyn mewn perygl uniongyrchol, dylid galw 999.	
LEFEL Y RISG	RISG LEFEL ISEL	RISG GYMHDROL	RISG UCHEL/GRITIGOL
Hunanesgeulustod	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn yn derbyn cymorth a gwasanaethau (byddwch yn wylidwrus o gydymffurfio ffug) • Mae anghenion gofal iechyd yn cael sylw • Dydy'r unigolyn ddim yn colli pwysau • Does dim problemau o ran cynhalwyr • Mae modd i'r unigolyn gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol • Mae'r person yn gallu ymdopi â gweithgareddau byw bob dydd • Mae ei hylendid personol yn dda 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mynediad at wasanaethau cymorth yn gyfyngedig • Mae gofal iechyd a phresenoldeb mewn apwyntiadau yn ysbeidiol • Mae'r unigolyn yn colli pwysau neu o dan ei bwysau • Mae effaith ar iechyd meddwl a lles yr unigolyn • Mae rhyngweithio cymdeithasol yr unigolyn yn gyfyngedig • Dydy cynhalwyr ddim yn bresennol • Mae mynediad yr unigolyn i weithgareddau cymdeithasol a chymunedol yn gyfyngedig • Mae gallu'r unigolyn i ddod i ben â sgiliau byw bob dydd mewn perygl • Mae hylendid personol yn dod yn broblem 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn yn gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau • Mae'r gofal iechyd yn wael ac mae'r iechyd yn dirywio • Mae'r pwysau'n lleihau ac mae'r unigolyn yn amlwg o dan ei bwysau • Mae'i les yn cael ei effeithio yn ddyddiol; mae hwyliau'r unigolyn yn isel ac efallai'i fod yn mynegi meddyliau am hunan-niweidio neu hunanladdiad. • Mae camddefnyddio sylweddau (alcohol, cyffuriau anghyfreithlon neu bresgripsiwn) yn ffactor sy'n cymhlethu'r sefyllfa • Mae'r unigolyn wedi'i ynysu heb fawr o gymorth gan deulu/ffrindiau • Dydy'r unigolyn ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu gymunedol • Dydy'r unigolyn ddim yn gallu ymdopi â gweithgareddau byw bob dydd • Mae hylendid a gofal personol yn wael a gall hyn fod yn achosi cyflyrau iechyd (e.e. y clafr, doluriau pwysau, clwyfau heb eu trin, heintiau) • Mae'r unigolyn yn gwrthod cymhorthion ac addasiadau neu dydy e ddim yn manteisio arnyn nhw • Mae atgyweiriadau yn cael eu gwrthod
Casglu Eiddo	<ul style="list-style-type: none"> • Mae modd cyrraedd yr holl fynedfeydd ac allanfeydd, grisiau, gofod o a ffenestri. • Larymau mwg wedi'u gosod ac maen nhw'n gweithio / atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth tân i ymweld â'r cartref a'u gosod. • Mae'r holl wasanaethau'n gweithio ac yn cael eu 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim ond un brif allanfa sydd wedi'i rhwystro • Dim ond un o'r gwasanaethau sydd ddim yn gwbl weithredol • Pryder nad yw gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda • Does dim larymau mwg wedi'u gosod neu dydyn nhw ddim yn gweithio • Dydy'r ardd ddim yn hygyrch oherwydd annibendod, neu dydy'r ardd ddim yn cael ei chynnal a'i chadw 	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad cyfyngedig i'r eiddo oherwydd annibendod eithafol; mae tystiolaeth o annibendod eithafol i'w gweld wrth y ffenestri • Mae modd gweld tystiolaeth o annibendod eithafol y tu allan i'r eiddo Dydy'r ardd ddim yn hygyrch ac mae wedi tyfu'n wyllt i raddau helaeth • Gwasanaethau heb gysylltiad neu ddim yn gweithio'n iawn • Does dim larymau mwg wedi'u gosod neu dydyn nhw ddim yn gweithio • Mae diffyg awyru yn yr eiddo oherwydd annibendod • Tystiolaeth o ddifrod strwythurol neu atgyweiriadau sydd angen eu gwneud gan gynnwys lleithder • Drysau mewnlol ar goll neu wedi'u blocio • Tystiolaeth o eitemau dan do wedi'u storio y tu allan i'r eiddo

	<p>cadw mewn cyflwr da.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r ardd yn hygyrch, yn daclus ac wedi'i chynnal a'i chadw 	<ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o eitemau dan do wedi'u storio y tu allan i'r eiddo Tystiolaeth o ddifrod strwythurol lefel isel gan gynnwys lleithder yn yr eiddo, drysau ar goll neu wedi'u blocio ar agor 	
<p>Hel eitemau'n ddiangen – Natur ymarferol y cartref</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dim annibendod gormodol, mae modd defnyddio pob ystafell yn ddiogel at ei diben bwriadedig. Mae pob ystafell yn cael ei graddio 0-3 ar y Raddfa Sgorio Annibendod Does dim offer cartref ychwanegol sydd ddim yn cael eu defnyddio sy'n ymddangos mewn lleoliadau anarferol o amgylch yr eiddo Mae'r eiddo'n cael ei gynnal o fewn telerau unrhyw brydles neu gytundeb tenantiaeth lle bo hynny'n briodol. Dydy'r eiddo ddim mewn perygl o gamau gweithredu gan lechyd yr Amgylchedd. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae annibendod yn achosi tagfeydd yn y lleoedd byw ac yn effeithio ar ddefnydd yr ystafelloedd at eu diben bwriadedig. Mae annibendod yn achosi tagfeydd rhwng yr ystafelloedd a'r mynedfeydd Mae'r ystafelloedd yn sgorio rhwng 4 a 5 ar y Raddfa Sgorio Annibendod Lefelau anghyson o waith cadw tŷ drwy'r eiddo i gyd Dydy rhai o'r offer yn y cartref ddim yn gweithio'n iawn ac efallai y bydd unedau ychwanegol mewn lleoedd anghyffredin. Dydy'r eiddo ddim yn cael ei gynnal o fewn telerau prydles neu gytundeb tenantiaeth lle bo hynny'n berthnasol Tystiolaeth o eitemau awyr agored wedi'u storio y tu allan i'r eiddo 	<ul style="list-style-type: none"> Mae annibendod yn rhwystro'r lleoedd byw ac yn atal yr ystafelloedd rhag cael eu defnyddio at eu diben bwriadedig. Mae'r ystafelloedd yn sgorio 7-9 ar y Raddfa Sgorio Annibendod a dydyn nhw ddim yn cael eu defnyddio at eu diben bwriadedig Gwelyau yn anhygyrch neu does dim modd eu defnyddio oherwydd annibendod neu bla Mynedfeydd, cynteddau a grisiau wedi'u blocio neu'n anodd eu pasio Does dim modd defnyddio'r toiledau a'r sinciau neu dydyn nhw ddim yn cael eu defnyddio Mae'r preswlydd mewn perygl oherwydd yr amgylchedd byw Dydy'r offer cartref ddim yn gweithio neu maen nhw'n anhygyrch a does dim lle diogel i goginio Mae'r preswlydd yn defnyddio canhwyllau Mae'r gwifrau trydanol yn ymddangos yn anniogel neu mae'r cyflenwad nwy wedi'i ddiffodd Does dim tystiolaeth o waith cadw tŷ Tystiolaeth o eitemau awyr agored yn cael eu storio y tu mewn i'r eiddo Eitemau cartref wedi'u torri ond heb gael eu taflu, e.e. gwydr neu blatiau wedi'u torri Pryder am iechyd meddwl a lles sy'n dirywio Hysbysiad ceisio meddiant neu broses 'troi allan' yn mynd rhagddi Camau gorfodi iechyd yr amgylchedd yn cael eu hystyried neu ar y gweill
<p>Hel eitemau'n ddiangen – lechyd a Diogelwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r eiddo'n lân heb unrhyw arogleuon Dim bwyd yn pydru Dim defnydd o ganhwyllau sy'n achosi pryder Dim pryder ynghylch pryfed Mae'r preswylwyr yn ymgymryd â gofal personol Does dim ysgrifen ar y waliau Mae'r feddyginiaeth o fewn y terfynau priodol o ran faint sy'n cael ei chadw a'r 	<ul style="list-style-type: none"> Dydy'r gegin na'r ystafell ymolchi ddim yn cael ei chadw'n lân Aroglau ffaidd yn yr eiddo Dydy'r preswlydd ddim yn cynnal amgylchedd coginio diogel Mae rhai pryderon yn ymwneud â faint o feddyginiaeth sy'n cael ei chadw, sut mae'n cael ei storio neu'i dyddiadau dod i ben. Dim bwyd yn pydru Dim defnydd o ganhwyllau sy'n achosi pryder 	<ul style="list-style-type: none"> Gall wrin a/neu garthion dynol fod yn bresennol Arogl gormodol yn yr eiddo a all fod yn amlwg o'r tu allan hefyd Gall bwyd sy'n pydru fod yn bresennol Gall fod tystiolaeth o blatiau a llestri aflan neu heb eu defnyddio, neu blatiau a llestri o dan bentwr o bethau eraill Eitemau cartref wedi'u torri ond heb gael eu taflu, e.e. gwydr neu blatiau wedi'u torri Arogleuon miniog y tu mewn i'r eiddo y mae modd o bosibl eu clywed o'r tu allan Llawer o feddyginiaeth neu feddyginiaeth sy'n cael ei storio'n amhriodol Pryder ynglŷn â dibynadwyedd y trydan Defnydd amhriodol o gortynnau estyn trydanol neu dystiolaeth o waith wedi'i wneud gan weithiwr sydd ddim yn gymwys Pryder am ddirywiad iechyd meddwl Pla lefel uchel o bryfed (chwilod gwely, llau, chwain, chwilod duon,

	<p>dyddiad ac mae'n cael ei storio mewn modd priodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Does dim angen cyfarpar diogelu personol 	<ul style="list-style-type: none"> • Preswlydd yn ceisio cynnal ei ofal personol ond yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny • Does dim ysgrifen ar y waliau • Pla lefel isel o bryfed (chwilod gwely, chwain anifeiliaid, chwilod duon, morgrug, ac ati) • Angen cyfarpar diogelu personol (menig, esgidiau uchel, mwgwd wyneb, diheintydd dwylo, peth ymlid pryfed) 	<p>morgrug, pryfed arian ac ati)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pla cnofilod gweladwy
<p>Hel eitemau'n ddiangen – Diogelu plant, aelodau o'r teulu, anifeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim pryderon ynghylch aelodau'r cartref 	<ul style="list-style-type: none"> • Plant neu oedolion agored i niwed sy'n byw yn yr eiddo – bydd angen rhoi gwybod i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth • Efallai y bydd angen rhoi gwybod i RSPCA am anifeiliaid yn yr eiddo sy'n ymddangos yn sâl, yn dioddef o ddiffyg maeth neu â chyflyrau croen. 	<ul style="list-style-type: none"> • Hel eiddo'n ddiangen ar raddfa annibendod o 7-9 • Plant neu oedolion mewn perygl sy'n byw yn yr eiddo – bydd angen rhoi gwybod i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth • Bydd angen rhoi gwybod i RSPCA am anifeiliaid yn yr eiddo sy'n ymddangos yn sâl, yn dioddef o ddiffyg maeth neu â chyflyrau croen.
<p>GALL CYFRIFOLDEB</p>	<p>GAEL EI REOLI DRWY ASiantaeth UNIGOL OND MAE UNRHYW WEITHWYR YN YMGYSYLLTU Â'R UNIGOLYN AC YN GWEITHIO AR Y CYD AR YR HOLL FATERION</p>	<p>OS YW RISG GYMHDROL YN CAEL EI NODI MEWN UNRHYW GATEGORI, BYDD ANGEN CYMRYD Y CAMAU GWEITHREDU CANLYNOL</p> <p>MAE'R SWYDDOG TAI (OS YW'N LANDLORD TAI CYMDEITHASOL) NEU WEITHIWR CYMDEITHASOL YN TREFNU CYFARFOD AMLASiantaeth I RANNU GWYBODAETH A DATBLYGU CYNLLUN YMYRRAETH CYDGYSYLLTIEDIG SY'N CAEL EI ADOLYGU YN GYFNODOL (BYDD HYD Y CYFNODAU RHWNG YR ADOLYGIADAU YN CAEL EU CYTUNO GAN BAWB)</p> <p>BYDD ASiantaeth ARWEINIOL A GWEITHIWR PROFFESIYNOL ARWEINIOL YN CAEL EU NODI.</p>	<p>OS YW RISG LEFEL UCHEL / GRITIGOL YN CAEL EI NODI MEWN UNRHYW GATEGORI, BYDD ANGEN CYMRYD Y CAMAU GWEITHREDU CANLYNOL.</p> <p>BYDD YR ASiantaeth ARWEINIOL NEU UNRHYW ASiantaeth / GWEITHIWR PROFFESIYNOL SY'N YMWNEUD Â'R UIGOLYN YN ATGYFEIRIO I'R PANEL PARTNERIAETH HUNANESGEULUSO.</p>

Atodiad 3: Deddfwriaeth

1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, o dan Ran 3 i asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth lle mae'n ymddangos bod hyn yn angenrheidiol ac o dan Ran 4 i ddiwallu anghenion cymwys. Bydd anghenion yn gymwys os;

- ydyn nhw'n deillio o afiechyd corfforol neu feddyliol yr oedolyn, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg eraill ac
- o ganlyniad dydy'r oedolyn ddim yn gallu diwallu ei anghenion, naill ai ar ei ben ei hun, neu gyda chymorth pobl eraill sy'n fodlon ei roi, neu gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned.

Bydd anghenion perthnasol yn gysylltiedig â/ag;

- Gallu'r unigolyn i gynnal arferion hunanofal neu ddomestig
- Gallu'r unigolyn i gyfathrebu
- Angen yr unigolyn am ddiogelwch rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- Angen yr unigolyn i gymryd rhan ym myd gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden
- Angen yr unigolyn i gynnal neu ddatblygu perthynas gyda'i deulu neu berthynas arwyddocaol arall
- Angen yr unigolyn i ddatblygu a chynnal perthynas gymdeithasol ac ymwneud â'r gymuned
- Angen yr unigolyn i gyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn

Mae'r dyletswyddau yma hefyd yn berthnasol i gynhalwyr yn gyffredinol.

O dan Adran 126 o'r Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i wneud ymholiadau ei hun neu beri i eraill wneud ymholiadau mewn achosion lle mae ganddo achos rhesymol i amau bod oedolyn:

- ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r Awdurdod Lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio)
- yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu mewn perygl o hyn
- yn methu ag amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag bod mewn perygl o'r rhain, o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny.

Diffiniad esgeulustod yw methiant i gael mynediad at ofal neu wasanaethau meddygol, cymryd risgiau diangen, methiant i roi meddyginiaeth, methiant i gynorthwyo gyda materion hylendid personol neu ddarparu bwyd, cysgod, dillad; esgeulustod emosiynol. Yn y bôn, er mwyn dod o fewn Diogelu Oedolion, rhaid i esgeulustod fod o un person gan un arall, sy'n gyfrifol am ddarparu gofal neu driniaeth.

Mae Rhan 3 a 4 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a oes gan berson anghenion am ofal a chymorth ac, os nad oes modd diwallu ei anghenion mewn unrhyw ffordd arall, i ddarparu cynllun gofal a chymorth, a allai yn ei dro arwain at hynny mewn gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion.

2. Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Sefydloodd y Ddeddf yma egwyddorion pwysig sy'n cynnwys:

Egwyddor 1: Hunan-benderfyniad a chydsyniad gwybodus. Rhagdybir y bydd oedolion yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac y bydd cefnogaeth, cymorth, gwasanaethau ac weithiau ymyrraeth ar raddfa fawr i unigolyn ar sail cydsyniad dilys yr unigolyn hwnnw.

Egwyddor 2: Cymesuredd ac ymyrraeth leiaf cyfyngol. Dylai cymorth ac ymyrraeth fod yn seiliedig ar egwyddor cymesuredd ac ymwithgarwch lleiaf. Hynny yw, dylai maint, natur a graddfa ymateb fod yn gymesur â maint, natur a graddfa'r risgiau dan sylw.

Rhaid cymryd yn ganiataol bod yr unigolyn yn meddu ar y galluedd oni bai fod tystiolaeth feddygol o'i ddifffyg galluedd. All person ddim gwneud penderfyniad drosto'i hun os nad yw'n gallu:

- Deall yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad
- Cofio'r wybodaeth honno
- Defnyddio neu bwysu a mesur yr wybodaeth honno yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad
- Cyfleu ei benderfyniad (p'un ai trwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall).

Byddai anallu i fodloni unrhyw un o'r pedwar amod yma'n golygu na all y person wneud y penderfyniad dan sylw.

O dan adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2007, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad wneud y canlynol:

a) Ystyried a yw'n debygol y bydd gan yr unigolyn allu ar ryw adeg mewn perthynas â'r mater dan sylw.

b) Caniatáu ac annog yr unigolyn i gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn unrhyw weithred sy'n cael ei gwneud drosto ac unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arno.

c) Ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn y gorffennol a'r presennol [ac, yn benodol, unrhyw ddatganiad ysgrifenedig perthnasol a wnaed ganddo pan oedd ganddo alluedd.]

ch) Ystyried yr agweddau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar ei benderfyniad pe bai ganddo allu, a'r ffactorau eraill y byddai'n debygol o'u hystyried pe bai'n gallu gwneud hynny.

ch) Os yw'n ymarferol ac yn briodol ymgynghori â nhw, ystyried safbwyntiau

i. unrhyw un sydd wedi'i enwi gan yr unigolyn fel rhywun i ymgynghori ag ef ar y mater dan sylw neu mewn materion o'r math hwnnw.

ii. unrhyw un sy'n gofalu am yr unigolyn neu sy'n cael ei effeithio gan ei les.

iii. unrhyw dderbynnnydd Atwrneiaeth Arhosol sydd wedi'i rhoi gan yr unigolyn

iv. unrhyw ddirprwy sydd wedi'i benodi ar gyfer y person gan y llys.

Gall y Llys Gwarchod wneud gorchymyn o dan Adran 16(2) o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ymwneud â lles unigolyn sydd heb alluedd, sy'n gwneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn hwnnw i ganiatáu mynediad i drydydd parti (gan gynnwys ymarferwyr awdurdodau lleol) i'r person hwnnw. Gallai methu â chydymffurfio â gorchymyn gan y Llys Gwarchod fod yn ddirmyg Llys.

Gall y Llys atodi rhybudd cosb i'r gorchymyn, gan rybuddio y gallai methu â chydymffurfio arwain at garchar neu ddirwy.

Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol

Mae Codau Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ymdrin â materion megis:

- Pwy ddylai asesu galluedd?
- P'un a yw'r person wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw neu wedi rhoi awdurdod i rywun arall wneud y penderfyniad yma.
- Sut i bennu "Budd Gorau" a phryd i alw cyfarfod Budd Gorau.
- Swyddogaeth y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol.
- Swyddogaeth y Llys Gwarchod.
- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (yn y Cod Ymarfer).

Wrth asesu rhywun sy'n hunanesgeuluso mae'n bwysig cofio, pan fydd person yn gwneud penderfyniad sy'n annoeth, yn amhriodol neu'n rhoi ei hun mewn perygl, dydy hyn o reidrwydd yn golygu nad oes ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw. Dydy gwneud penderfyniadau gwael ar ei ben ei hun ddim yn gyfystyr â diffyg galluedd. Rhaid i'r asesiad o alluedd fod yn seiliedig ar allu'r unigolyn i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater perthnasol. Mewn achos o hunanesgeuluso lle mae person yn gwneud penderfyniadau dro ar ôl tro sy'n rhoi ei hun mewn perygl o niwed difrifol ac a allai arwain at ddiodefaint neu ddifrod y mae modd ei atal, dylid cynnal asesiad o alluedd.

Os yw canlyniad asesiad yn nodi nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad, yna rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau ar ran yr unigolyn er eu budd gorau. Dylai'r camau sy'n cael eu cymryd ystyried:

- Dymuniadau, teimladau, gwerthoedd a buddion yr unigolyn sydd wedi bod yn destun asesiad galluedd.
- Barn aelodau o'r teulu, rhieni, cynhalwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn lles yr unigolyn sydd heb alluedd, os yw'n ymarferol ac yn briodol.
- Barn unrhyw berson sydd ag Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol.
- Barn unrhyw Ddirprwy sydd wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn.

3. Cael mynediad at oedolyn a allai fod mewn perygl o niwed:

Gall y pwerau cyfreithiol canlynol fod yn berthnasol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau:

- Os yw canlyniad asesiad unigolyn yn nodi bod gan y person ddiffyg galluedd meddyliol mewn perthynas â mater sy'n ymwneud â'i les, bydd gan y Llys Gwarchod bwerau eang i wneud penderfyniadau er budd gorau'r unigolyn. Gallai'r Llys, er enghraifft, orchymyn i'r unigolyn ganiatáu mynediad i'w gartref i weithwyr proffesiynol / asiantaethau penodol, iddo dderbyn rhai gwasanaethau neu gallai gynnwys ei symud o'i gartref i le arall, megis lleoliad gofal.
- Os yw oedolyn â galluedd meddyliol, sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, yn cael ei rwystro rhag arfer y galluedd hwnnw, mae awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys yn galluogi'r Llys i wneud gorchymyn, mewn unrhyw amgylchiadau nad yw'n cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth neu reolau penodol, y mae'r Llys yn eu hystyried yn briodol (er enghraifft, symud yr unigolyn o'i gartref i leoliad gofal neu, mewn amgylchiadau eithafol, ei gwneud yn ofynnol i'r person ymostwng i driniaeth feddygol).
- Os y farn yw bod oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac mae mynediad iddo/iddi yn cael ei atal am ba reswm bynnag a bod pob ymgais i gael mynediad at yr unigolyn wedi methu, gall Swyddog Awdurdodedig Awdurdod Lleol wneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, a fyddai'n gofyn am

fynediad a chynnal sgwrs breifat rhwng yr oedolyn mewn perygl a'r Swyddog Awdurdodedig. Pwrpas y Gorchymyn yw canfod a yw'r person yn gwneud penderfyniadau yn rhydd ac a oes angen cymorth a/neu fesurau diogelu arno. Dydy e ddim yn caniatáu symud yr unigolyn o'i gyfeiriad.

- Os oes pryder ynghylch unigolyn sydd efallai'n dioddef o anhwylder meddwl, mae Adran 115 o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu'r pŵer i Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (wedi'i gymeradwyo gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol) fynd i mewn i unrhyw adeilad a'i archwilio (ac eithrio ysbyty) lle mae person ag anhwylder meddwl yn byw, ar ôl dangos adnabyddiaeth ddilys, os oes gan y gweithiwr proffesiynol achos rhesymol i fod o'r farn nad yw'r person yn derbyn gofal priodol. Dydy adran 115 ddim yn caniatáu defnyddio grym i fynd i mewn i'r adeilad.
- Os y farn yw bod gan berson anhwylder meddwl, ac mae amheuaeth o esgeulustod neu gamdriniaeth neu, os yw'r unigolyn yn byw ar ei ben ei hun, nad yw'r person yn gallu gofalu amdano'i hun, o dan Adran 135(1) o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae gan Lys Ynadon bŵer, ar gais gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, i ganiatáu i'r heddlu fynd i mewn i adeilad, gan ddefnyddio grym os oes angen ac os y farn yw bod hynny'n briodol, symud person i le diogel am hyd at 24 awr tra bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer y person.
- Mae pŵer cyfraith gwlad i'r heddlu atal, a delio â thorri'r heddwch. Er nad yw torri'r heddwch yn drosedd dditiadwy, caiff yr heddlu fynd i mewn ac arestio person i atal torri'r heddwch hyd yn oed mewn annedd breifat.
- Os yw'n bosibl bod perygl o farwolaeth/anaf, mae Adran 17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn rhoi'r pŵer i'r heddlu fynd i mewn i adeilad heb warant er mwyn achub bywyd /atal anaf neu atal difrod difrifol i eiddo. (Mae hyn yn cynrychioli sefyllfa frys a mater i'r heddlu yw arfer y pŵer – does dim modd i unrhyw weithiwr proffesiynol nac asiantaeth eu cyfarwyddo i wneud hynny).

4. Awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys

Mae 'awdurdodaeth gynhenid' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pŵer yr Uchel Lys i glywed unrhyw achos a ddaw ger ei fron oni bai fod deddfwriaeth neu reol wedi cyfyngu'r pŵer hwnnw neu wedi rhoi awdurdodaeth i ryw lys neu dribiwnlys arall i glywed yr achos. Mae hyn yn golygu bod gan yr Uchel Lys y pŵer i glywed ystod eang o achosion gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â lles oedolion, os nad yw'r achos eisoes yn cael ei lywodraethu gan weithdrefnau sydd wedi'u nodi mewn rheolau neu ddeddfwriaeth. Mae'n 'gyfraith gwlad' wedi'i datblygu gan yr Uchel Lys i reoli'r gweithdrefnau ger ei fron ac i atal unrhyw anghyfiawnderau sy'n codi oherwydd ei fod wedi cael ei atal rhag clywed unrhyw achos.

Fel rheol does dim modd defnyddio'r weithdrefn yma mewn perthynas â phobl sydd heb alluedd, oherwydd mai'r Llys Gwarchod sy'n delio ag achosion o'r fath o dan y gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Serch hynny, gall awdurdodaeth gynhenid fod yn berthnasol o hyd i oedolyn sydd heb alluedd os nad yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ymdrin â'r mater a'r ymyrraeth sy'n ofynnol; er enghraifft, wrth wneud datganiad o beidio â chydabod priodas. Gallai fod yn angenrheidiol, mewn amgylchiadau eithriadol, i awdurdod lleol wneud cais i'r Uchel Lys i ofyn i'r Llys arfer ei awdurdodaeth gynhenid i amddiffyn oedolyn sydd â galluedd meddyliol.

5. Deddf Iechyd Meddwl 1983

Mae modd nodi asesiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn achosion o hunanesgeulustod lle mae'r person yn dioddef o anhwylder meddwl, oherwydd gall fod angen i'r unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty i gael ei asesu a'i drin, os yw'r meini prawf statudol yn cael eu bodloni. Mae mynediad i'r ysbyty i gael asesiad am hyd at 28 diwrnod o dan Adran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gofyn am argymhellion gan 2 ymarferydd meddygol a chais gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy.

Mae Adran 135 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl

yn darparu'r awdurdod i Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy geisio gwarant sy'n awdurdodi Swyddog Heddlu i fynd i mewn i adeilad (gan ddefnyddio grym rhesymol, os oes angen) os y farn yw bod rhywun yn dioddef o anhwylder meddwl, yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ei gadw heblaw nag o dan reolaeth briodol yn unrhyw le o fewn awdurdodaeth y llys, neu'n methu â gofalu amdano'i hun ac mae'n byw ar ei ben ei hun mewn unrhyw le o'r fath. Mae hyn yn caniatáu i Swyddog Heddlu gyda Meddyg a Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy fynd i mewn i'r adeilad a symud yr unigolyn i le diogel am gyfnod o hyd at 24 awr gyda'r bwriad o wneud cais o dan Ran II o'r Ddeddf, neu drefniadau eraill i roi triniaeth neu ofal iddo. Gall man diogel gynnwys cartref gofal cofrestredig addas.

Adran 7 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 – Gwarcheidiaeth

Mae cais am warcheidiaeth yn cael ei wneud gan Weithiwr Iechyd Meddwl cymeradwy neu berthynas agosaf yr unigolyn (fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf). Rhaid i ddau feddyg gadarnhau:

- bod y claf yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu radd sy'n gofyn am warcheidiaeth;
- a'i bod hi'n angenrheidiol er lles y claf neu er mwyn amddiffyn eraill.

Rhaid i'r gwarcheidwad fod yn awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, neu'n berson sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer yr ardal y mae'r gwarcheidwad arfaethedig yn byw ynddi.

Mae gwarcheidiaeth yn gofyn bod y claf yn:

- byw mewn man wedi'i bennu gan y gwarcheidwad
- mynd i leoedd wedi'u pennu gan y gwarcheidwad ar gyfer ymgysylltiad, hyfforddiant neu driniaeth feddygol (er na all y gwarcheidwad orfodi'r claf i gael triniaeth) ac y gall meddyg, gweithiwr cymdeithasol neu berson arall sydd wedi'i bennu gan y gwarcheidwad weld y claf gartref.
- caniatáu mynediad i weithwyr proffesiynol neu asiantaethau penodol i unrhyw le lle mae'r person yn preswyllo

6. Deddfwriaeth Iechyd yr Amgylchedd

Mae gan awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau iechyd yr amgylchedd bwerau i ddelio â phroblemau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys pwerau mynediad i annedd fel dewis olaf. Mae'r pwerau yma weithiau'n berthnasol i oedolion agored i niwed a allai fod yn destun hunanesgeulustod neu esgeulustod eithafol gan bobl eraill, a lle'r canlyniad yw bod mater iechyd cyhoeddus wedi'i greu.

Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936

O dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936 adran 83, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi rhybudd i berchennog neu ddeiliad annedd i gymryd camau penodol i lanhau a diheintio

annedd a dinistrio fermin. Mae'r ddyletswydd yn cael ei sbarduno os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod cyflwr budr ac afiach yr adeilad yn niweidiol i iechyd, neu os yw'r adeilad yn ferminog. Fel dewis olaf, mae gan y Cyngor bŵer mynediad i adeilad, gan ddefnyddio grym os oes angen. Mae modd cael gorchymyn gan Lys Ynadon (Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, Adran 287).

Mae adran 84 yn nodi y gall fod yn ofynnol hefyd i feddiannydd adeilad ddiheintio neu ddinistrio unrhyw eitemau aflan. Os yw'r preswlydd yn methu â chydymffurfio â'r gofynion o ran glanhau'r adeilad/eitemau, mae gan yr Awdurdod Lleol y pŵer i gyflawni'r gwaith ei hun a chodi tâl rhesymol. Mae'r person hefyd yn agored i ddirwy. Os yw person, neu ei ddillad, yn ferminog, gall yr Awdurdod Lleol ei symud (gyda'i ganiatâd neu gyda gorchymyn llys) i'w lanhau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936, Adrannau 83-86).

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymchwilio i niwsans statudol, megis sŵn, mwg, aroglau, niwsans llwch a golau, fel sydd wedi'i nodi yn adran 79 o'r Ddeddf.

Pan fydd yn fodlon bod niwsans statudol yn bodoli, rhaid i'r Awdurdod Lleol gyflwyno rhybudd atal sy'n gosod gofynion. Mae'r ddeddf hefyd yn cynnwys pwerau mynediad i eiddo y mae modd eu cael trwy warant gan Lys Ynadon.

7. Deddf Troseddu a Phlisma 2014 (adrannau 76-93) Rhan 4, Pennod 3 o'r Egwyddorion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Gorchymyn Cau

Mae modd cyhoeddi gorchymyn cau os yw'r llys yn fodlon:

- bod rhywun wedi cymryd rhan, neu (os nad yw gorchymyn wedi'i gyhoeddi) yn debygol o gymryd rhan, mewn ymddygiad afreolus, ymosodol neu droseddol ar y safle; neu
- fod defnyddio'r adeilad wedi arwain, neu (os nad yw gorchymyn wedi'i gyhoeddi) yn debygol o arwain at niwsans difrifol i aelodau'r cyhoedd; neu
- bod anhrefn wedi bod, neu (os nad yw gorchymyn wedi'i gyhoeddi) yn debygol o ddigwydd yn agos at yr eiddo hwnnw sy'n gysylltiedig â defnyddio'r safle hwnnw, a bod y gorchymyn yn angenrheidiol i atal yr ymddygiad, y niwsans neu'r anhrefn rhag parhau, digwydd neu ddigwydd eto.

8. Deddf Landlord a Thenant 1985, Cyfraith Achos a'r Cytundeb Tenantiaeth

Mae modd caniatáu mynediad mewn un o ddwy ffordd:

- caiff y tenant roi caniatâd
- pan fo'r gyfraith yn rhoi hawl mynediad (Deddf Tai 1985, cyfraith achos neu gytundeb tenantiaeth)

Os na fydd y tenant yn rhoi caniatâd, caiff y landlord fynd i mewn i'r eiddo heb rybudd mewn unrhyw fodd angenrheidiol os oes argyfwng megis tân neu bibellau dŵr yn byrstio.

Ar gyfer atgyweiriadau neu waith cynnal a chadw arall, chaiff y landlord ddim torri i mewn. Rhaid rhoi rhybudd i'r tenant. Os na fydd y tenant yn caniatáu mynediad, rhaid cychwyn achos cyfreithiol i roi mynediad. Byddai hyn er mwyn galluogi cynnal archwiliadau ac atgyweiriadau / gwaith cynnal a chadw.

Os yw'r tenant yn torri'r cytundeb oherwydd bod yr eiddo mewn cyflwr gwael, bydd modd cymryd camau gorfodi a allai arwain at y tenant yn colli ei gartref.

9. Deddf Hawliau Dynol 1998

Erthygl 8 – Hawl i gael parch i fyw bywyd preifat/teuluol.

Mae hyn yn nodi bod gan bawb yr hawl i eraill barchu ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth ac na fydd awdurdod cyhoeddus yn ymyrryd ag arfer yr hawl yma ac eithrio mewn rhai amgylchiadau penodol. Rhaid i unrhyw ymyrraeth gydymffurfio â'r gyfraith a bod am nifer o resymau sy'n cynnwys diogelwch y cyhoedd ac iechyd neu amddiffyn hawliau a rhyddid eraill. Serch hynny, mae Erthygl 8 yn hawl gymwysedig a rhaid ei chydbwysio â deddfau eraill sydd wedi'u cynllunio i amddiffyn yr unigolyn a/neu'r rhai o'u cwmpas.

Erthygl 2 – Hawl i fywyd

Erthygl 2 yw un o'r darpariaethau mwyaf sylfaenol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Rhaid i'r wladwriaeth byth gymryd bywyd rhywun yn fympwyol a rhaid iddi hefyd ddiogelu bywydau'r rhai sydd dan ei gofal. Yn ogystal, rhaid i'r wladwriaeth gynnal ymchwiliad effeithiol pan fydd unigolyn yn marw yn dilyn methiant y wladwriaeth i amddiffyn yr hawl i fywyd, neu'r defnydd o rym gan swyddogion y llywodraeth.

Erthygl 3 – Yr hawl i ryddid rhag triniaeth annynol a diraddiol

Mae Erthygl 3 hefyd yn hawl absoliwt. Ddylai neb gael ei drin mewn modd sy'n achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol dwys neu driniaeth sy'n waradwyddus a diurddas.

Erthygl 5 – Hawl i ryddid a diogelwch y person

Mae hyn yn nodi na ddylid amddifadu unrhyw un o'i ryddid heblaw yn unol â'r weithdrefn wedi'i rhagnodi gan y gyfraith neu mewn nifer o amgylchiadau penodol. Mae un o'r darpariaethau'n ymwneud â 'chfyngu ar symudiadau unigolion yn gyfreithlon er mwyn atal lledaeniad afiechydon heintus, defnyddwyr gwasanaeth sydd ddim yn eu hiawn bwyll, y rheiny sydd ag anhwylder o ran y defnydd o alcohol, pobl sy'n gaeth i gyffuriau neu grwydriaid' (5) (l) (e)

Atodiad 4: Gwasanaethau Perthnasol – Rhestr Termiau

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf

Dylid rhoi gwybod i Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf am bob achos sy'n cael ei amau o gam-drin neu esgeuluso oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae'r Hwb yn bartneriaeth rhwng Carfanau Diogelu Oedolion a Phlant Cynghorau RhCT a Merthyr Tudful, Addysg, nyrsys diogelu arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, staff Amddiffyn y Cyhoedd Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf 01443 743730

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn bartneriaeth rhwng Carfanau Diogelu Oedolion a Phlant Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Gwasanaethau i Blant, Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Garfan Cymorth Cynnar, Addysg, Nyrsys Diogelu Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, staff Diogelwch y Cyhoedd Heddlu De Cymru a'r Garfan Cyffuriau ac Alcohol yn y Gymuned. Mae angen rhoi gwybod i'r Hwb am bob achos o gam-drin neu esgeuluso oedolyn mewn perygl sy'n cael ei gyflawni gan unigolyn/unigolion

01656 642320 (plant mewn perygl)

01656 642477 (oedolion mewn perygl)

Cymorth eirioli

RhCT a Merthyr Tudful

Dewis (dan 50 oed a phobl sy'n byw gydag anabledd dysgu): 01443 827930

Age Connects Morgannwg: 01443 490650

Cymdeithas Alzheimer 01685 353919

MIND Merthyr Tudful a'r Cymoedd 01685 707480

Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Hwb 'Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr' wedi'i sefydlu fel man cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd angen 'eiriolwr' i gynrychioli ei farn a sefyll dros ei hawliau.

Mae llinell gymorth bwrpasol wedi'i chreu y caiff y cyhoedd ei galw: 0808 801 0330. Mae'r llinell gymorth ar gael o Ddydd Llun i Ddydd Gwener 9am - 5pm.

Cynghorau Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae pob Cyngor yn cynnig Gwybodaeth, Cyngor, Cymorth a Gofal yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i oedolion dros 18 oed a'u cynhalwyr. Mae enghreifftiau o rai o'r gwasanaethau sydd ar gael wedi'u rhestru isod:

Cyfeirio

Gwasanaethau galwedigaethol a ffisiotherapi ailalluogi sy'n arbenigo ym materion y corff a'r cof.

Gwasanaethau cymorth gartref i weithredu cynlluniau ailalluogi neu ddarparu gofal a chymorth parhaus gartref

Cymhorthion/addasiadau

Asesiadau o Anghenion Gofal a Chymorth

Gwasanaeth Byw'n Annibynnol

Cyfleoedd oriau dydd

Cyngor/cymorth ynghylch rheoli arian, materion tai, arwahanrwydd cymdeithasol

Cymorth i gynhalwyr

Gwasanaethau eistedd gyda phobl

Gwaith cymdeithasol proffesiynol

Gofal preswyl

Mae'r cymorth yn cael ei deilwra i anghenion yr unigolyn i'w alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol a hyrwyddo ei les corfforol ac emosiynol.

Gwasanaeth Ymateb ar Unwaith RhCT: 01443 425003
Carfan Cyswllt Cyntaf Pen-y-bont ar Ogwr: 01656 642279
E-bost: contactassessmentreviewteam@bridgend.gov.uk
Gwasanaeth Cymorth Cychwynol Merthyr Tudful: 01685 725000

Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd

Mae'r Carfanau Llygredd ac Iechyd y Cyhoedd yn ymchwilio i gwynion am adeiladau brwnt a ferminol o amrywiaeth o ffynonellau, e.e. cymdogion, asiantaethau allanol neu aelod pryderus o'r teulu.

Gwasanaethau'r Amgylchedd RhCT 01443 425001
Pen-y-bont ar Ogwr: Ffôn 0300 123 6696
Merthyr Tudful: 01685 725000

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid ('RSPCA')

- Llinell Gymorth Genedlaethol i roi gwybod am anifeiliaid mewn tralod neu greulondeb i anifeiliaid: 0300 1234 999

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Charfanau Troseddau Casineb

RhCT: 01443 425001
Pen-y-bont ar Ogwr: 01656 306069
Merthyr Tudful: 01685 725000

Gwasanaethau Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol

Mae gan Wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol wasanaeth pwynt mynediad sengl ar gyfer Cwm Taf i wasanaeth camddefnyddio sylweddau statudol a thrydydd sector arbenigol sy'n darparu asesiadau, triniaeth, gofal a chymorth i bobl sy'n ddibynol ar sylweddau (cyffuriau ac alcohol).

Y broses atgyfeirio – Hunan neu Broffesiynol
Drwy ffonio **DASPA** 0300 333 0000 neu drwy fynd i <http://daspa.org.uk>
Mae sesiynau asesu galw heibio ar gael ym mhob clinig ardal Carfan Cyffuriau ac Alcohol Gymunedol (CDAT) Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – mae manylion ynghylch pryd i fynd yn cael eu rhoi wrth atgyfeirio.

Pen-y-bont ar Ogwr
Mae'r Garfan Cyffuriau ac Alcohol Gymunedol yn darparu gwasanaeth i bobl sy'n cael problemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth arbenigol hygyrch, wedi'i seilio ar ddull lleihau niwed sy'n cynnwys gweithio tuag at ymatal lle bo hynny'n briodol, gan ddarparu rhaglenni gofal sy'n cael eu datblygu'n unigol gyda phob person.
Ffôn: 01656 667717 (opsiwn 2)

Carfanau Iechyd Meddwl Cymunedol

Mae Carfanau Iechyd Meddwl Cymunedol yn darparu ymyrraeth i unigolion rhwng 18 oed a 65 oed (er bod achosion lle gall y carfanau ymwneud ag unigolion 17 oed a thros 65 oed) sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth sy'n gofyn am ymyriadau medrus sy'n fwy dwys na'r hyn y gall y gwasanaeth gofal sylfaenol ei gynnig (gwasanaethau meddygon teulu). Mae'r carfanau wedi'u lleoli yng Nghwm Rhondda, Cwm Cynon, Taf-elái, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Mae'r carfanau yn cynnwys gweithwyr amrywiol – seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys seiciatrig cymunedol, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymorth. Mae Carfanau Iechyd Meddwl Cymunedol yn darparu gwasanaeth asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu cynlluniau gofal yn rhan ganolog o'u swyddogaeth, er bod gwaith dyletswydd, argyfwng a Deddf Iechyd Meddwl hefyd yn cael ei wneud yn rheolaidd trwy'r carfanau.

Mae'r Carfanau Iechyd Meddwl Cymunedol yn darparu system ddyletswydd o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa

Cwm Cynon – 01443 715100

Taf-elái – 01443 486856

Cwm Rhondda – 01443 424350

De Pen-y-bont ar Ogwr – 01656 763000

Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr – 01656 754278

Merthyr Tudful – 01685 351100

Mae gan y swyddogion dyletswydd ystod eang o wybodaeth am wasanaethau ac mae modd iddyn nhw ddarparu cyngor, gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg hefyd yn darparu gwasanaethau Asesu Argyfwng a Thriniaeth Gartref (CRHT).

CRHT Ysbyty Brenhinol Morgannwg (ar gyfer Taf-elái a Chwm Rhondda): 01443 443443

Ysbyty Tywysoges Cymru (ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr): 01656 752449

CRHT Ysbyty'r Tywysog Siarl (ar gyfer Merthyr Tudful a Chwm Cynon): 01685 721721

Carfanau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn

Mae'r Garfan Iechyd Meddwl Pobl Hŷn yn cynnwys Nyrsys Seiciatrig Cymunedol, Seiciatryddion Ymgynghorol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Deietegwyr, Seicolegwyr a Therapyddion Galwedigaethol. Maen nhw naill ai'n cysylltu â'r garfan Gofal Cymdeithasol berthnasol ym mhob awdurdod Lleol neu mae gyda nhw garfan integredig sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol.

Mae'r garfan yn gweithio gyda phobl ag anghenion iechyd meddwl sydd dros 65 oed neu gyda phobl o unrhyw oedran sydd â dementia. Maen nhw hefyd yn cysylltu â'r Clinig Cof.

Yr oriau gwaith yw 9am i 5pm.

Taf-elái – 01443 444595

Cwm Rhondda – 01443 443033

Merthyr Tudful – 01685 351122

Cwm Cynon – 01443 715100

Pen-y-bont ar Ogwr – 01656 763000

Mae'r garfan yn darparu gwasanaeth asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu cynlluniau gofal yn ogystal â chymorth arbenigol i garfanau gofal cymdeithasol. Ffocws y gwasanaeth

yw darparu cymorth yn y gymuned a lleihau'r tebygolrwydd o ddirywiad neu ailwaelu, bod yn gefn i gynhalwyr yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth, a lleihau'r angen i unigolion gael eu derbyn i'r ysbyty.

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Cwm Taf Morgannwg

Mae Gofal Sylfaenol yn darparu gofal iechyd cyffredinol i bobl trwy gydol eu hoes. Dylai pob dinesydd fod wedi'i gofrestru gyda Meddyg Teulu, sef pwynt cyswllt cyntaf gwasanaethau gofal iechyd heblaw argyfwng. Mae llawer o bractisau gofal sylfaenol yn cynnig ystod o wasanaethau yn uniongyrchol ond mae modd iddyn nhw hefyd atgyfeirio unigolion at wasanaethau gofal iechyd eilaidd neu arbenigol.

Gwasanaeth Nyrsio Rhanbarthol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn darparu Gwasanaeth Nyrsio Rhanbarthol sydd wedi ymrwymo i egwyddorion gofal nyrsio cyfannol. Yn sail i hyn, nod y gwasanaeth yw cynnig y lefel uchaf o ragoriaeth glinigol ac ymarfer lefel uwch wrth gael ei arwain gan anghenion ac ymateb i gleifion. Nod y gwasanaeth yw cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i ddod i ben â'u cyflyrau eu hunain a darparu ymyriadau a thriniaethau nyrsio i'r rhai mewn angen, a thrwy hynny osgoi derbyn neu aildderbyn yn ddiangen i'r ysbyty pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Oriau gweithredu: mae'r Gwasanaeth Nyrsio Rhanbarthol yn gweithredu 24 awr y dydd / 7 diwrnod yr wythnos / 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Rhanbarthol yn defnyddio system atgyfeirio agored, a dderbynnir o unrhyw ffynhonnell, ar yr amod bod tystiolaeth o angen clinigol priodol. Bydd pob atgyfeiriad yn cael ei frysbennu gan aelod o'r Garfan Nyrsio Rhanbarthol i sicrhau ei fod yn cynnwys digon o wybodaeth ac angen nyrsio adnabyddadwy. Lle bo modd, bydd cleifion yn rhoi eu caniatâd cyn cael eu hatgyfeirio.

Dim ond ar gyfer un neu fwy o'r meini prawf canlynol y bydd atgyfeiriadau'n cael eu hystyried:

- cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi yn feddygol p'un ai trwy afiechyd aciwt neu gronig;
- cleifion sydd angen arbenigedd nyrsio'r Garfan Nyrsio Rhanbarthol;
- cleifion sydd angen gofal nad oes modd eu cyflawni'n briodol mewn lleoliad arall neu amgylchedd clinig.

Rhaid darparu digon o wybodaeth a/neu ddogfennau, er enghraifft, cynlluniau gofal neu siartiau meddyginiaeth perthnasol gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n atgyfeirio er mwyn i'r atgyfeiriad gael ei dderbyn.

Rhaid ffonio'r Hwb Cyfathrebu Pwynt Mynediad Sengl yn Nhŷ Elai ar **01443 444069** er mwyn atgyfeirio yn RhCT a Merthyr Tudful.

Pen-y-bont ar Ogwr **01656 763000**

Swyddogion Cymorth Cymunedol Heddlu De Cymru

Gall Heddlu De Cymru ddarparu cymorth ar gyfer oedolion agored i niwed o ran ymweliadau / cyfleoedd ymgysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yn ein cymunedau.

Mae modd dod o hyd i Swyddogion Cymorth Cymunedol a swyddogion yr heddlu sy'n gyswllt i gymunedau trwy wefan Heddlu De Cymru: <https://www.police.uk/cy-GB/pu/eich-ardal-chi/heddlu-de-cymru/>

Fel mesur ychwanegol (ac mewn nifer fach o achosion), gall yr Heddlu osod marcwyr rhybuddio ar bobl sy'n agored i niwed. Mae modd defnyddio'r marcwyr rhybuddio i roi gwybodaeth ychwanegol i swyddogion sydd ar eu ffordd i'r digwyddiad.

Pe bai angen ymateb yr heddlu, caiff unrhyw un ffonio 999 am unrhyw fygythiad neu risg uniongyrchol i fywyd a 101 am ymateb heblaw argyfwng.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae'r gwasanaeth Tân ac Achub yn ymateb i argyfyngau, ond hefyd yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer Ymweliadau Gwirio Diogelwch Tân yn y Cartref ar gyfer y rhai mwyaf agored i dân yn ein cymunedau. Mae addysg a gosod cynnyrch lleihau risg wedi gweld gostyngiad mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Personél yr Orsaf a staff diogelwch yn y gymuned yn ymweld ag eiddo domestig i ddarparu cyngor a chyflenwi a gosod ystod o gyfarpar am ddim i leihau risg. Mae'r gwiriadau yma'n gonglfaen i'r swyddogaeth lleihau risg ragweithiol y mae'r Gwasanaeth wedi'i mabwysiadu ac mae'n esblygu yn ei ymdrech i leihau marwolaethau ac anafiadau sy'n cael eu hachosi gan danau damweiniol a gwneud unigolion yn y gymuned yn fwy diogel.

O ganlyniad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru nawr yn cynnal Ymweliad Sicrhau Diogelwch a Lles, sy'n cynnwys asesiadau llithro, baglu a chwympo, ymwybyddiaeth carbon monocsid, diogelwch y cartref a rhoi'r gorau i ysmegu lle mae risg yn cael ei nodi.

Y broses atgyfeirio – trwy e-bost i par@southwales-fire.gov.uk

Cymdeithasau Tai

Y meysydd gwaith y gall cymdeithasau tai ymwneud â nhw yw:

- Gorfodi tenantiaid lle maen nhw wedi torri telerau ac amodau'r denantiaeth a all fod yn ymwneud â chyflwr yr eiddo neu fethu â chaniatáu mynediad i gynnal gwaith atgyweirio
- Cymorth i denantiaid sy'n hunanesgeuluso, sy'n cynnwys gwaith penodol i ymdrin â hel eitemau'n ddiangen
- Atgyweirio eiddo er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel
- Cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd ar ffitiadau nwy a thrydan ac archwiliadau diogelwch tân ychwanegol mewn blociau o fflatiau a thai lloches
- Cynnal archwiliadau rheolaidd ar dir sy'n cynnwys ardaloedd cymunedol a gerddi

Cymdeithasau Tai yng Nghwm Taf Morgannwg

Grŵp Cartrefi Cynon Taf	Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, Aberpennar, CF45 4SN 0345 260 2633
-------------------------	---

Cymdeithas Tai Rhondda	9 Compton Road, Tonypandy, Cwm Rhondda CF40 1BE 01443 424200
Tai 'Wales and West'	Archway House, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU 0800 052 2526 neu 02920 415300
Cymdeithas Tai 'Newydd'	Tŷ Cadarn, 5 Village Way, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7NE 0303 040 1998
Trivallis	Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd, CF37 2SW 03000 030 888
Cymdeithas Tai Hafod	St Hilary Court, Copthorne Way, Caerdydd, CF5 6ES 0800 024 8968
Cartrefi Cymoedd Merthyr	Cartrefi Cymoedd Merthyr 22 Lansbury Road Gellideg Merthyr Tudful CF48 1HA 01685 727772
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful	11/12 Lower High Street, Merthyr Tudful, CF47 8EB 01685 352800
Valleys to Coast Housing	Parc Busnes Tremaen Heol Tremaen Pen-y-bont ar Ogwr 0300 123 2100
Green Meadows	Coity Road Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1LT 07801 121294
'Wales and West' Pen-y-bont ar Ogwr	4 Court Road Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1BN 01656 650638
Cymdeithas Tai Hafod	Tŷ Glanogwr Glanogwr Road Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3PE 01656 767785

Digartrefedd

Materion Tai, RhCT 01443 495188

Bridgend Housing Solutions: 01656 642729

Housing Solutions, Merthyr Tudful 01685 725000

Cymorth i Bobl

Carfan Cymorth i Bobl
Cyngor Merthyr Tudful
Ystafell 304A
Y Ganolfan Ddinesig
Castle Street
Merthyr Tudful CF47 8AN

Ffôn 01685 724690

E-bost: SupportingPeople@merthyr.gov.uk

Carfan Cymorth i Bobl Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Angel Street
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Ffôn 01656 642081

E-bost supporting.people@bridgend.gov.uk

Carfan Cymorth i Bobl RhCT, Ffôn: 01443 425005
Tŷ Elái, Dwyrain Dinas Isaf, Trewiliam, Tonypany
Rhondda Cynon Taf, CF40 1NY
E-bost: cymorthibobl@rhondda-cynon-taf.gov.uk

BETH YW GWASANAETH CYMORTH I BOBL?

Mae'r cynllun Cymorth i Bobl yn ariannu, monitro a datblygu gwasanaethau mewn perthynas â thai â chymorth a thai yn gyffredinol sy'n cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed.

Nod y gwasanaeth yw rhoi cyfleoedd i bobl sydd angen cymorth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol neu gynnal ffordd o fyw annibynnol yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar atal neu ddatrys problemau a fyddai o bosibl yn arwain at ddigartrefedd, gofal preswyl, mynd i'r ysbyty neu droseddu.

BETH YW CYMORTH MATERION TAI?

Mae modd i Gymorth Materion Tai helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen er mwyn cynnal neu ddatblygu'r gallu i fyw'n annibynnol a chyfrannu'n positif i'r gymuned.

Mae modd darparu cymorth o fewn Llety â Chymorth neu Lety Argyfwng neu yng nghartref yr unigolyn. Dylai cymorth alluogi pobl i fod yn annibynnol.

Mae modd darparu cymorth i gynorthwyo â nifer o faterion, gan gynnwys:

- Cyfeirio unigolion at asiantaethau eraill, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd, a helpu pobl i gysylltu â'r asiantaethau yma
- Rhoi trefn ar y cartref ac edrych ar ei ôl, gan gynnwys rheoli tenantiaeth
- Cyllidebu, rheoli arian, a chynyddu incwm

- Meithrin sgiliau byw ymarferol
- Ailadeiladu/datblygu cysylltiadau â rhwydweithiau cymdeithasol/teuluoedd a lleihau unigrwydd cymdeithasol
- Cynyddu diogelwch personol
- Cyngor ar faterion yn ymwneud â thai, ailsefydlu, ôl-ddyledion, cael eich hel o'r tŷ ac ati

PWY MAE GWASANAETHAU CYMORTH I BOBL YN EI GYNORTHWYO?

Mae cymorth ar gael i bobl heb lety eu hunain ond sydd angen Llety â Chymorth neu Lety mewn Argyfwng. Mae hefyd ar gael i bobl sydd â'u cartrefi neu denantiaethau eu hunain. Dyw'r prosiectau ddim yn addas ar gyfer pobl fydd ddim yn gallu byw'n annibynnol. Mae modd darparu cymorth i bobl sydd eisiau eu cartrefi eu hunain ond sydd angen datblygu'r sgiliau y mae eu hangen i reoli tenantiaeth.

Rhaid i'r unigolyn fod yn agored i niwed a bod yn rhan o un o'r categorïau canlynol:

- Digartref / Yn wynebu bod yn ddigartref o bosib
- Cyn-droseddwy
- Ag anabledd corfforol
- Wynebu cam-drin domestig
- Â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol
- Pobl hŷn
- Pobl Ifainc
- Â salwch cronig
- Ag anawsterau dysgu
- Ag anghenion iechyd y meddwl
- Ffoaduriaid
- Rhan o deulu sy'n agored i niwed

BETH DYDY GWASANAETHAU CYMORTH I BOBL DDIM YN EI WNEUD?

Dydy Gwasanaethau Cymorth i Bobl ddim yn ariannu'r canlynol

- Materion rheoli tai
- Cwnsela arbenigol
- Gofal oriau dydd
- Gofal personol
- Cymorth mewn cartref gofal
- Gwaith allgymorth gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd
- Canolfannau galw heibio
- Gofal iechyd
- Darparu meddyginiaeth
- Rhaglenni dadwenwyno
- Ymyriadau therapi
- Gwasanaethau canoli.

Gwasanaeth Gofal a Thrwsio Cwm Taf

Mae Gwasanaeth Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn is-gwmni i Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf sy'n galluogi perchnogion preswyl sy'n hŷn neu'n anabl, ledled Cwm Taf i aros yn eu cartrefi mewn mwy o gysur, cynhesrwydd a diogelwch. Mae'r gwasanaeth yma'n cynnig:

- Gwasanaeth ymweld â chartrefi am ddim
- Gwiriad cartrefi iach am ddim i'ch eiddo
- Helpu i leihau'r risg o gwmpo
- Cymhorthion ac addasiadau
- Grant / Cymorth cyllid elusennol
- Cymorth Effeithlonrwydd Ynni
- Gwasanaethau tasgmon
- Cymorth Diogelwch
- Gwiriad Diogelwch Tân Am Ddim
- Gwiriadau Hawliau Budd-daliadau

Mae'r gwasanaeth yn derbyn hunanatgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol ar 0300 1113333

Gwasanaeth Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr

Rydyn ni'n darparu gwasanaeth 'cyfannol' sy'n golygu ein bod yn ceisio cynorthwyo cleientiaid nid yn unig mewn perthynas â gwaith penodol, ond hefyd mewn perthynas ag unrhyw waith, cymorth neu ymyrraeth arall y byddai'r cleient yn elwa ohono. Gall hyn gynnwys cyfeirio at sefydliadau eraill a all gynorthwyo mewn meysydd dydyn ni ddim yn ymdrin â nhw.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys eich cynorthwyo i wella, atgyweirio neu addasu eich cartref ac maen nhw ar gael i unigolion 60 oed neu'n hŷn neu unigolion o unrhyw oedran sydd ag anabledd. Efallai y caiff tâl ei godi ar gyfer rhai gwasanaethau gan ddibynnu ar gymhwysedd.

Avon Court
Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SR
01656 646755